# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 566 · **Goffennaf 2025** · 70c

## Chwip o Sioe

Cynhaliwyd Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen eleni ar ddydd Sadwrn, 7 Mehefin. Er nad oedd y tywydd ar ei orau ar ddechrau'r dydd fe ddaeth yr haul allan yn y pnawn a chafwyd diwrnod gwych. Roedd llu o gystadlu unwaith eto eleni. Pob blwyddyn mae'r sioe yn denu cystadleuwyr o bob cwr o'r Dyffryn a thu hwnt.

Mae'r defaid yn ganolog i'r digwyddiad, gyda bridwyr yn dangos y stoc gorau ac eleni roedd cynnydd yn y nifer cystadleuwyr. Cafwyd cystadleuaeth cneifio ddiwedd y pnawn sydd yn gyfle i'r cystadleuwyr ddangos eu doniau gyda'r peiriant ynghyd a'r gwellau traddodiadol.

Roedd cystadlu brwd yn adran y ceffylau hefyd. Braf oedd gweld cymaint yn cystadlu a'r ymdrech oedd wedi ei wneud i baratoi'r ceffylau ar gyfer y sioe.

Roedd cŵn o bob lliw a llun i'w gweld yn y prif gylch yn ystod amser cinio, dyma un adran o'r sioe sydd wedi tyfu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac wedi dod yn boblogaidd dros ben!

Roedd y babell cynnyrch cartref yn llawn dop o gacennau, llysiau, gwin, crefftau a llawer mwy, i gyd wedi eu paratoi gan bobl leol, mae yna gryn dalent yn y Dyffryn!

I'r plant roedd yna fabolgampau yn y prif gylch. I'r rhai sy'n gwerthfawrogi treftadaeth, roedd yr arddangosfa o hen beiriannau amaethyddol yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar waith y gorffennol. Cafwyd adloniant dryw'r prynhawn gan Aeron Pughe a'r band.

Mae'r sioe yn ddathliad gwirioneddol o'r tir, y bobl a'r diwylliant – a phob blwyddyn, mae'n atgyfnerthu'r cysylltiad cryf rhwng cymuned Dyffryn Ogwen a'i gwreiddiau gwledig.

Dymunai Pwyllgor y sioe diolch yn fawr iawn i bawb am y gefnogaeth a gafwyd eleni. Diolch i Glwb Rygbi Bethesda am gael defnyddio'r cyfleusterau unwaith eto, Ysgol Dyffryn Ogwen am gael defnyddio'r iard ar gyfer parcio a Phartneriaeth Ogwen am y defnydd o'r bws mini i gludo pobl yn ôl a blaen o'r cae. Diolch arbennig i'r holl wirfoddolwyr sydd yn rhoi eu hamser er mwyn sicrhau fod Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen yn ffynnu.

Mae'r paratoadau ar gyfer sioe blwyddyn nesaf eisoes wedi cychwyn ac edrychwn ymlaen at weld pawb yn 2026.

Yn dilyn llwyddiant Taith Tractors y llynedd mae dyddiad wedi ei bennu ar gyfer taith arall eleni a hynny er mwyn codi arian i'r sioe sef dydd Sul, 14 Rhagfyr – bydd mwy o fanylion i ddilyn dros y misoedd nesaf!

**Elin Iolen Rhys**



Diolch i Glwb Camera Dyffryn Ogwen am y lluniau







Elin Tomos, gwobr gyntaf efo'i dafad North Country Cheviot



Jessica Griffith, o Dal Y Bont gyda Cilgeraint Tammy a enillodd ail a thrydydd yn y sioe

## Roc y Ddôl – yr orau eto

**Cafwyd gwledd o adloniant draw ar gaeau Dôl Ddafydd yn ddiweddar gyda chynnal trydedd gŵyl o gerddoriaeth Gymraeg, Roc y Ddôl. Mwy o'r hanes a lluniau ar dudalen 3.**



Bwncath a Bryn Fôn

# Llais Ogwan

**Rhif 566**
**Gorffennaf 2025**

**Panel Golygyddol**
Ieuan Wyn
Lowri Roberts
Neville Hughes
Dewi A Morgan
Trystan Pritchard
Rhodri Llŷr Evans
Owain Evans
Carwyn Meredydd
Rhys Llwyd
Catrin Wager
Fflur Roberts

**Swyddogion**
**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**Trefnydd hysbysebion**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**Ysgrifennydd**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**Trysorydd**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 /
07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan **Carwyn Meredydd.**

Y golygydd ym mis **Medi** fydd **Neville Hughes**, 14 Ffordd Pant, Bethesda, Gwynedd, LL57 3PA.
01248 600853
Ebost: nev_hughes@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn**, **30 Awst** os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu **Nos Iau**, **18 Medi**, yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45.

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.




## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain**
Yn anffodus, oherwydd cynnydd aruthrol yng nghostau postio, 'rydym wedi cael ein gorfodi i godi ein pris i £35 y flwyddyn.

**Owen G Jones**, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Clwb Cyfeillion

**Gwobrau Gorffennaf**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (162) | Linda Brown, Gerlan. |
| £20.00 | (126) | Wendy Dore, Garneddwen, Bethesda. |
| £10.00 | (62) | Iona Wyn Jones, Pentre' Llandygai. |
| £5.00 | (73) | Carol Jones, Rhiwlas. |

## Dyddiadur y Dyffryn

**Gorffennaf**
19 Cylch Meithrin Tregarth yn dathlu 50 mlynedd. Y Ganolfan. 10.00 – 2.00.
22 Gyrfa Chwist, Canolfan Cefnfaes am 6.45yh.
27 Caffi Trwsio Caban Gerlan. 11.00-1.00yp.
29 Gyrfa Chwist, Canolfan Cefnfaes am 6.45yh.

**Awst**
21, 22, 23 Arddangosfa Arlunio. Canolfan Glasinfryn. 11.00 – 4.00

**Medi**
4 Sef. y Merched Carneddi. Noson Hosbis yn y Cartref. Festri Jerusalem am 7.00.
9 Gyrfa Chwist, Canolfan Cefnfaes am 6.45yh.
15 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem 10.30 – 12.00.
18 Casglu a dosbarthu Llais Ogwan ar y llawr uchaf yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45yh.
23 Gyrfa Chwist, Canolfan Cefnfaes am 6.45yh.
29 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem 10.30 – 12.00.
30 Gyrfa Chwist, Canolfan Cefnfaes am 6.45yh.

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £20 | Er cof annwyl am Dylan Rowlands oddi wrth dad, mam a'r teulu, Erw Las. |
| £100 | Fred Buckley, Tregarth, er cof annwyl am ei wraig, Bessie |

***Diolch yn fawr.***

BYSUS
D. P. OWENS
RHIWLAS



01248 361044
07771 634195

Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiau, priodasau, partion ac ati.

*Bysus Gwyrdd Rhiwlas*

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997
PERCHENNOG: DERFEL OWENS

# Llais Ogwan

***Newyddion Medi i'w dderbyn erbyn 30 Awst.***
***Dyddiad cyhoeddi 18 Medi.***

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru
CYMRAEG

***Cysylltwch â ni: golygydd@llaisogwan.com***



# ROC Y DDÔL

Nid ar chwarae bach ma trefnu diwrnod llawn dop o berfformwyr poblogaidd gan sicrhau fod y dyrfa niferus yn cael hwyl a chadw'n ddiogel. Mae camp criw selog o drefnwyr yn un i'w longyfarch, ac ar y cyfan, mi drefnodd y pwyllgor fod y tywydd yn cyd-fynd hefyd!

Arweiniwyd y cyfan gan y cyflwynydd Alistair James, gan groesawu Côr y Penrhyn i gychwyn yr ŵyl, cyn clywed gan y grŵp lleol Aldos (Soap gynt).

Roedd y dorf yn tyfu'n ystod y prynhawn pan ddaeth y gantores Elin Fflur ar y llwyfan – gan ddychwelyd i Roc y Ddol am yr ail tro.

Yna cafwyd set gan y DJ ifanc talentog, Efan Electro. Mae'r gŵr ifanc lleol yma yn prysur gwneud enw iddo'i hun ar y sîn.

Tara Bandito oedd nesaf i ddiddanu dorf, a thyfu wnaeth y dorf ar gyfer un o uchafbwyntiau'r dydd gyda pherfformiad Dafydd Iwan a'r Band. Mae'r hen glasuron o ganeuon yn parhau yn boblogaidd ymhlith yr hen a'r ifanc, gyda phawb yn morio canu Yma o Hyd ac I'r Gad.

Dychwelodd Yws Gwynedd i Dôl Ddafydd wedi serennu'r llynedd, ac roedd y perfformiad eleni yr un mor fyrlymus, gyda dawnsio'r dorf yn cyflymu a phawb yn mwynhau'r arlwy.

Daeth y cyfan i ben gyda pherfformiad gwych gan un o grwpiau mwyaf poblogaidd Cymru, Bwncath. Ymunwyd â nhw ar y llwyfan gan yr anfarwol Bryn Fôn ar gyfer cyfuniad o glasuron o ganeuon.

O restru'r holl berfformwyr, mae'n glir fod yna waith sylweddol wedi bod dros y 12 mis diwethaf yn cael popeth yn ei le ar gyfer Roc y Ddôl 2025 – diolch i'r holl wirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser i sicrhau fod cannoedd ohonom yn mwynhau draw yn Nôl Ddafydd bob blwyddyn.

Mae Pwyllgor Roc y Ddôl yn awyddus i ddiolch i bawb a gyfrannodd at wneud yr ŵyl yn lwyddiant ysgubol eleni, yn noddwyr gan gynnwys Zip World, Roberts Brothers, H F Owen a Gwynedd Skips, staff a phobl yr ardal am eu cefnogaeth.

Roedd y perfformwyr i gyd wedi mwynhau'r awyrgylch anhygoel, gan ddweud eu bod yn edrych ymlaen at ddychwelwyd oherwydd y croeso arbennig gan bobl Pesda.

Mae'r trefnwyr eisoes yn dechrau paratoi ar gyfer y flwyddyn nesaf, felly gobeithio fod pawb yn barod am Roc y Ddôl 2026!



Merched Pesda yn mwynhau perfformiad Dafydd Iwan (Llun Heulwen Roberts)



Aldos



Dafydd Iwan yn cyfarfod rhai o'r to iau



Trefnwyr Roc y Ddol



Efan Electro


CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu

18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369
neu 07813 455653



Mark Davies
07447804110

Peiriannydd Carafan Teithiol
MD Caravans

Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs

mark@mdcaravans.cymru

MCEA

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY
Cyrsiau Byr a Datblygiad Proffesiynol
Short Courses and Professional Development

Ystyried dysgu rhywbeth newydd?

- Dysgu Cymunedol
- Uwchsgilio a Datblygiad Proffesiynol
- Cyrsiau pwrpasol i fusnesau
- Darlithoedd cyhoeddus

Cysylltwch!

cyrsiaubyr@bangor.ac.uk
01248 382 875

https://www.bangor.ac.uk/cy/cyrsiau-byr-a-dpp

# Llandygái

**Iona Wyn Jones,** 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280) ionawynbangor@gmail.com

## Eglwys Sant Tegai, Llandygai

**Gwyliau!**
Dymunwn wyliau hapus iawn i holl blant a staff ein hysgol eglwys, Ysgol Llandygai, ac wrth gwrs i'n gwirfoddolwyr, ffrindiau a chefnogwyr yn y pentref ac ymhellach. Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth ffyddlon dros flwyddyn llawn bwrlwm.

**Diolch**
Diolch eto i aelodau'r gynulleidfa ac i gefnogwyr allanol am barhau i gyfrannu'n ariannol ac am ymateb mor ffyddlon i Apêl Mis Rhodd St Tegai ym Mehefin.
Unrhyw fanylion pellach gan y swyddogion Ann E. Williams (Warden y Ficer), Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor, Gwynedd. LL57 3EF (Ffôn 01248 600719)
Nerys Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys a Sacristan), 2 Bryn, Llandygai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD (Ffôn 01248 354369)
Edmond Douglas Pennant (Trysorydd a Warden y Bobl), Lodge Drws Melyn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd LL57 4HU.

**Priodas**
Llongyfarchiadau i Elin Haf Taylor a Dylan Panzera Madden ar eu priodas yn St Tegai ar Fai 24ain. Dymunwn pob hapusrwydd iddynt yn eu bywyd priodasol.

**Brysia Wella**
Mae Hannah McSorley Jones, un o'n aelodau ifanc, wedi derbyn anaf i'w phen-glin wrth chwarae i dîm merched Clwb Criced Bangor. Gobeithio y cei wared o'r baglau yn fuan, Hannah!

**Eglwys Agored**
Mae'r eglwys ar agor i bawb yn ddyddiol o ganol bore tan hwyr prynhawn fel rhan o'r cynllun cenedlaethol "Eglwysi Agored". Gallwch ddarganfod hanes yr eglwys ar bosteri a labelau yn yr adeilad.



Clwb Hanes Dyffryn Nantlle yn dilyn eu hymweliad ag Eglwys St Tegai

**Taith dywys**
Croesawyd 37 o aelodau Glwb Hanes Dyffryn Nantlle i'r eglwys ar brynhawn heulog Mehefin 19eg. Ar ôl cyflwyniad i'r adeilad a thipyn o hanes yr eglwys trosglwyddwyd yr awenau i Bob Morris a John Dilwyn Williams, dau hanesydd o fri a ddisgrifiodd hanes rhai o gymeriadau teulu'r Penrhyn, gan gynnwys stori Archesgob John Williams, cyn troi sylw at y cofebau amrywiol. Mwynhawyd paned o de a bisgedi cyn i'r criw droi eu sylw at y beddau arbennig yn y fynwent. Ar ôl ffarwelio, dilynasant drywydd John Iorc i Gochwillan i weld y neuadd oedd yn gartref iddo yn dilyn gwarchae Castell Conwy yn 1646. Bydd Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen yn ymuno â ni am daith dywys ar nos Fercher, Gorffennaf 16eg.

**Rhodd Arian gan Gyngor Cymunedol Llandygai**
Hoffem ddiolch i Gyngor Cymunedol Llandygai am ei gyfraniad at gynnal a chadw y fynwent. Fel y gwyddoch, mae pob eglwys yn gyfrifol o dorri gwair, rheoli tyfiant coed, cynnal a chadw waliau a giatiau yn eu mynwentydd. Mae hyn yn gostus iawn ac rydym yn dra ddiolchgar i'r Cyngor am gefnogi ein cais am arian. Mae mynwent St Tegai yn gwarchod beddau o blwyf hanesyddol Llandegai oedd yn gwasanaethu cymunedau Tregarth, Mynydd Llandegai a Nant Ffrancon hyd at Gapel Curig.

**Newyddion o'r Clochdŷ**
Mae drws hanesyddol y clochdŷ yn cael ei drwsio gan saer lleol. Edrychwn ymlaen i gael gwared o'r drws dros dro ac ail-ddefnyddio'r drws gwreiddiol o ganol y pedwerydd ganrif a'r bymtheg.
Bydd Highlife Rope Access yn ôl yn St Tegai dros y mis nesaf er mwyn adnewyddu'r landeri a'r pibellau dŵr ar y tŵr. Mae hyn yn ran o'n prosiect i atal dŵr rhag treiddio i fewn i'r adeilad.

### Gwasanaethau

**Ar y Sul**
Mae'r gwasanaethau St Tegai am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis. Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth yr eglwys.

**Ar Ddydd Mercher**
Gwasanaeth 10.30, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis. Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn.

**Manylion Cyswllt**
Y Parch Ddr Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen felly gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248361521 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys. Wrth gwrs gallwch hefyd gysylltu yn lleol â'n Caplan Bro, Parch Sara Roberts, SaraRoberts@churchinwales.org.uk

**Cydymdeimlad**
Rydym yn cydymdeimlo gyda Mrs. Eirlys Edwards, 23 Pentre' Llandygai, ar golli ei brawd, Dewi Cooke, yn Nuneaton.

**Setlo**
Da clywed fod Dei Edwards, gŵr Eirlys, 23 Pentre' Llandygai, wedi setlo ym Mhlas Maesincla yn ddiweddar.

# YSGOL LLANDYGAI

Dyma ni bellach wedi cyrraedd hanner tymor olaf y flwyddyn ysgol ac mae prysurdeb mawr o fewn yr ysgol wrth i ni nesáu at ddiwedd y tymor. Mae'r dosbarthiadau yn edrych ymlaen at dripiau Haf i Fferm Manorafon ac i 'Blue Planet'. Byddwn hefyd yn cynnal ein Mabolgampau ac yn mynd ar daith gerdded i Gastell Penrhyn.

Wrth orffen ar gyfer gwyliau'r Haf, byddwn yn ffarwelio gyda disgyblion Blwyddyn 6 wrth iddynt gychwyn ar bennod newydd yn yr ysgol uwchradd. Dymunwn pob llwyddiant iddynt i'r dyfodol a diolch am eu cyfraniad i fywyd Ysgol Llandygai.

Nid yn yr ysgol yn unig y mae'r prysurdeb gan bod criw brwdfrydig o rieni wrthi yn ail-sefydlu Cymdeithas Rhieni Athrawon yn yr ysgol. Edrychwn ymlaen yn fawr at gydweithio ym mis Medi i gynnal gweithgareddau amrywiol i godi arian er budd y disgyblion.

### Dosbarth Awel

Dosbarth Awel sydd wedi bod yn cael sesiynau Ysgol Goedwig y tymor yma, ac mae'r grŵp cyntaf wedi adeiladu cegin fwd allan o 'pallets' a dderbyniodd yr ysgol trwy gyswllt rhiant a chwmni Adre. Bu i'r dosbarth fwynhau y cyfle i gymryd rhan yn 'Niwrnod o hwyl pêl-droed' i ysgolion y dalgylch a drefnwyd gan Ysgol Y Felinheli yng nghanol mis Mehefin. Mae'r disgyblion wedi bod yn ymweld ag Eglwys Sant Tygai i weld y ffenestri lliw arbennig ac wedi cynllunio ffenestri lliw eu hunain yn y dosbarth.

### Dosbarth Enfys a Dosbarth Gwawr

Mae'r dosbarthiadau wedi bod yn dysgu yn ddiweddar am Ynys Môn - y pontydd a'r ynysoedd bach sydd o'i amgylch. Mae'r disgyblion hefyd wedi bod yn gweithio yn ddygn iawn ar adeiladu modelau o ynysoedd eu hunain a phawb wrth eu boddau yn edrych ar waith ei gilydd gan sylwi ar beth oedd ar bob un ynys. Buom yn ffodus hefyd o dderbyn lluniau gan un o'n teuluoedd oedd yn dangos taith mewn awyren o amgylch Sir Fôn. Roeddem yn bod yn 'dditectifs ynysoedd' wrth geisio cyfateb llun yr ynys o'r awyr ac ar fap.

### Dosbarth Tirion

Ddechrau'r mis, bu'r dosbarth yng Ngŵyl Criced Clwb Criced Bangor a mwynhau chwarae gemau yn erbyn ysgolion eraill. Yn y dosbarth, maent wedi bod yn gwneud gwaith maes ar dir Eglwys Sant Tygai gan ddarganfod a dysgu am gynefinoedd gwahanol drychfilod ar y tir, gan gynhyrchu pamffled gwybodaeth am drychfilod. Ganol Mehefin, cafwyd ymweliad gan Nia Roberts o brosiect Pererin (Esgobaeth Bangor), ble bu'r disgyblion yn gweithio'n galed i ddylunio a chreu stamp ar gyfer baner fydd yn cael ei harddangos yn y Gadeirlan fel rhan o ddathliadau Bangor 1500. Bydd y dosbarth yn cael mynd i'r Gadeirlan ar Ddiwrnod Sant Deiniol ym mis Medi i weld eu gwaith gorffenedig ynghyd a gweddill gwaith y prosiect.



Bu'r plant yn creu stampiau



Dylunio ffenestri lliw

# TrydanNi – cyfarfod y tîm

Mae dau aelod o staff newydd sy'n lleol i Ddyffryn Ogwen wedi ymuno gyda thîm TrydanNi, sef gwasanaeth rhannu ceir trydan cymunedol.

Bydd Hannah Mefin, Cydlynydd Rhanbarthol TrydaNi, yn gweithio'n agos gyda Tom Simone, y Prif Swyddog Cymunedol newydd – mae'r ddau yn wreiddiol o Fethesda ac mae nhw newydd ddechrau eu swyddi yn y mis diwethaf.

"Mae'n gyffrous gweithio i sefydliad mor arloesol, gyda chlybiau ceir ledled Cymru," meddai Tom.

"Mae'r car trydan ym Methesda yn hawdd iawn i'w archebu drwy ap TrydaNi, gellir ei archebu fesul awr, ac rydym wedi bod yn ymgynghori ag aelodau yn ddiweddar ar fodel prisio hyd yn oed yn fwy cystadleuol!

"Diolch i'n holl aelodau presennol - sy'n helpu i wneud gwiriadau a glanhau'r car - ac mae'n wych clywed am yr holl deithiau y mae pobl wedi bod yn eu gwneud!"

Gellir ymuno â TrydaNi am ddim drwy ymweld â'r wefan **www.trydani.org** ac yna archebu'r car i'w fenthyg. Mae'r ceir yn drydanol ac yn anelu at fod yn rhad, yn gyfleus, ac o fudd i'r cymunedau lleol, yn ogystal â'r amgylchedd.

Ym Methesda, mae TrydaNi yn gweithio gyda Phartneriaeth Ogwen, ac yn gwneud defnydd o'u cynlluniau ynni adnewyddadwy.

Ychwanegodd Hannah: "Efallai y bydd ychydig yn frawychus i bobl sy'n newydd i yrru cerbydau trydan, rydym yn cynnig sesiynau cyfarwyddo i aelodau, rydym yn hapus i ddangos i chi sut mae'n gweithio ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych."

Mae Hannah a Tom ar gael i helpu gydag unrhyw gwestiwn am y car trydan cymunedol ym Methesda, neu'r Clwb Ceir TrydaNi yn gyffredinol. I gysylltu, e-bostiwch: **hannah@trydani.org** neu **tom@trydani.org**



Tom a Hannah gyda'r car trydan ym Methesda

## Gair neu ddau
John Pritchard

# Canlyniadau

Gair o gyngor i bawb sy'n cynnal gŵyl neu garnifal yr haf hwn: peidiwch â threfnu stondin taflu bwyell, yn arbennig os ydych yn bwriadu estyn gwahoddiad i Pete Hegseth, Ysgrifennydd Amddiffyn yr Unol Daleithiau. Mewn gŵyl o fath ddeng mlynedd yn ôl, taflodd hwnnw'r fwyell dros y targed a tharo drymiwr mewn band milwrol. Nid yn annisgwyl, dewis peidio â chyferbynnu ei annel ei hun ag annel y lluoedd a ollyngodd eu bomiau dros Iran yn ddiweddar a wnaeth Hegseth.

Trueni er hynny na fyddai wedi dysgu gwers o'r digwyddiad hwnnw. Wedi i'r fwyell hedfan o'i olwg clywyd sŵn a bloedd, a dim ond wedi i'r taflwr anghyfrifol edrych y tu ôl i'r targed y gwelodd, er mawr ryddhad, mai anafiadau bychain a gafodd y drymiwr am mai coes y fwyell a'i trawodd. Dyw canlyniadau ein gweithredoedd ddim yn amlwg ar unwaith. Ond doedd Hegseth na Trump am ystyried hynny drannoeth y bomio; a 'gwehilion' neu 'faw isa'r domen' oedd pob gohebydd a feiddiai awgrymu y gallasai'r targedau fod unrhyw beth ond 'totally obliterated'. Rheitiach na chlochdar am fuddugoliaeth ysgubol, honedig fyddai i'r ddau ohonyn nhw ystyried canlyniadau posibl y cyrch. Y mae i bopeth ei ganlyniadau; ac amser a ddengys beth ddaw o'r hyn a eilw Trump 'y cyrch milwrol gorau erioed yn hanes y byd'.

Yn ein bywydau ninnau, y mae i bob gair, gweithred, bwriad a meddwl eu canlyniadau. Ac er bod rhai'n mynnu'r rhyddid i wneud a fynnon nhw heb orfod ystyried unrhyw ganlyniadau, y mae gras cyffredinol Duw'n golygu bod y mwyafrif o bobl fel arfer yn rhoi rhyw gymaint o sylw iddyn nhw. Mae Cristnogion yn sicr dan orfod i ystyried canlyniadau'r hyn a wnân nhw ac a ddeudan nhw rhag iddyn nhw fynd yn groes i fwriadau Duw neu beri loes i eraill. Ac o sylweddoli eu gwendid, maen nhw'n ddibynnol bob dydd ar ras Duw i'w helpu yn hyn o beth.

Nid pawb fyddai'n derbyn bod i'r hyn a wnawn o'r Efengyl ei ganlyniadau hefyd. Gallwn ymateb i'r newyddion da am Iesu Grist ym mha ffordd bynnag y dewiswn. Does dim rhaid i ni ei chredu na'i derbyn: mae gennym ryddid i'w hanwybyddu a'i gwrthod. Mi gawn ddweud a fynnom amdani. Mi fedrwn ddweud nad ydi hi'n wir ac nad yw'n werth ei hystyried. Mae Duw wedi rhoi'r rhyddid hwnnw i ni. A'i gwrthod a wna miloedd lawer o bobl. Fentrwn ni ddweud mai dyna a wna canran sylweddol o bobl Cymru heddiw? Ond, bydden nhw'n sylweddoli hynny ai peidio, y mae i'r gwrthodiad hwnnw ei ganlyniadau. Gwrthod yr Efengyl ydi gwrthod Iesu Grist, a gwrthod Iesu Grist ydi colli'r bywyd y mae Iesu Grist yn ei gynnig. Mae'r golled honno i'w theimlo yn y byd hwn ac yn y byd sydd i ddod.

Fedraf fi na neb arall brofi y tu hwnt i bob amheuaeth fod yr Efengyl yn wir a bod yr Arglwydd Iesu Grist wedi byw a marw ac atgyfodi a'i fod trwy hynny wedi sicrhau i bawb sy'n credu ynddo fywyd y tu hwnt i farwolaeth a'r bedd. Ond o dderbyn bod yna ganlyniadau i'r ymateb a roddwn i'r newyddion da amdano, byddai'n llawer gwell gen i fentro credu yng Nghrist na mentro peidio â gwneud hynny. Oherwydd pe digwydd i mi fod yn anghywir fy marn ynglŷn â Iesu Grist (nid fy mod am un eiliad yn ystyried hynny, cofiwch), rwy'n gwybod na fyddwn i ar fy ngholled mewn unrhyw fodd.

# Chwedl a Choel yn Nyffryn Ogwen (5)

Gan **Howard Huws**

Am Lyn Cororion, dywedid yr arferai tylwythes ddod allan o'r llyn gyda nosweithiau braf yr haf efo troell fach i nyddu gwlân: ac wrth nyddu, mwmiai'r geiriau "sili ffrit, sili ffrit". Aeth "sili ffrit Leisa Bela" yn ddywediad gan blant yr ardal: a diddorol yw bod "sili ffrit" yn enw yn rhannau eraill o Gymru ar goraches hoff o garu, neu ar blentyn tylwyth teg, neu ar blentyn llai nag arfer. A oedd "Leisa Bele" yn gysylltiedig â "Bryn Bela"? Neu â'r enw "Isabela", fel yn Nhyddyn Sabal, Llanllechid? Hwyrach ddim: ond am "sili ffrit" a "Belenê", mae'n sicr y bu "Julia", "Affrita" a "Benule" yn dair o blith saith chwaer-dylwythes a grybwyllid mewn swynion iachâu o'r Almaen a Llychlyn ers mil a rhagor o flynyddoedd. Sut y daethant i ymgartrefu yn Nhregarth sydd ddirgelwch.

Hanes arall am Gororion yw y bu yno eglwys, ar un adeg; ac wedi'r gwasanaeth, âi'r bobl i chwarae ac i ddifyrru eu hunain, neu i wylio'r tylwyth teg yn dawnsio o amgylch magïen (pry tân), gan ymuno â nhw yn y ddawns. Fel y canodd rhyw brydydd:

> "Â'r tylwyth teg yn dawnsio'n sionc
> O gylch magïen Pen y Bonc."

Yn ôl Huw Derfel roedd y llyn tua 110 medr o hyd, yn grwn, ac yn fwy o lawer ar un adeg, cyn y torrwyd iddo er mwyn arwain dŵr at Gastell y Penrhyn. Roedd un rhan ohono nad oedd byth yn rhewi, hyd yn oed ar aeaf gerwin. Yr oedd amryw sylfeini hen adeiladau a darnau o gerrig melinau wedi'u canfod yno, a arweiniodd rai i gredu bod y llyn wedi llyncu tref fawr ar un adeg.

Cyn gadael Cororion, rhaid sôn am goeden afalau surion fawr fu yno, yr hon, yn ystod hanner aeafol y flwyddyn, a arferai gael ei goleuo gan fath o dân. Dechreuai'n araf, gan gynyddu'n raddol hyd nes yr edrychai fod y goeden gyfan yn fflamau. Yn yr un modd, ymddangosai coed Hopiar y Gelli gerllaw eu bod hwythau wedi'u goleuo fel gan yr un tân.

Yn ymyl Cororion ceid Tyddyn Barcut. Un haf 'roedd gan y wraig yno efeilliaid tri mis oed, a thra aeth hi i odro, gadawodd hi nhw yng ngofal eu chwaer wythmlwydd oed. Gadawodd yr hogan fach yr efeilliaid, ac aeth at hogan Tyddyn Sarn i chwarae: ac erbyn i'r fam ddychwelyd gallai glywed y babanod yn crïo'n anghyffredin. Er iddi eu magu nhw am flwyddyn wedyn, nid oedd dim prifio arnynt, a daeth i gredu bod y tylwyth teg wedi cymryd ei phlant hi, a gadael dau gwlyn anhydrin o'u heiddo nhw yn eu lle.

Holodd hithau'r gwragedd eraill ynglŷn â'r hyn y dylid ei wneud, a chytunwyd y dylai hi ofyn cyngor dewin o'r enw Cadwgan. Holodd yntau hi am ei rheswm dros gredu nad ei phlant hi oeddent, ac atebodd nad oeddent yn dangos dim serch tuag ati, fel mae plant arferol. Rhoddodd wybod iddo, hefyd, am y cyfle a gafodd y tylwyth teg i ffeirio'r plant flwyddyn ynghynt, pan adawyd hwy ar eu pennau'u hunain.

Ystyriodd y dewin, ac yna dywedodd wrthi'r hyn y dylai hi ei wneud: pethau gwirion ac ofnadwy y cewch ddarllen amdanynt y tro nesaf.

Cegin Karen
Cacennau, Peis a Sawrus
Te Prynhawn a Bwffe ar gael
@CeginKaren Tel: 07886 560781
Ebost / Email: ceginkaren@btinternet.com

# Côr y Penrhyn

## gyda Derfel Roberts ac aelodau o'r côr



**Cydymdeimlad**

*Mrs Bessie Buckley*

Mae'r côr am fynegi cydymdeimlad dwys yr holl aelodau â Mr Fred Buckley, T2, o Faes Ogwen, Tregarth yn dilyn marwolaeth ei briod Bessie yn ddiweddar. Roedd Bessie Buckley yn wraig hoffus a chymeradwy iawn gan bawb a bydd colled enfawr ar ei haelwyd ac yn y cylch ar ei hôl.

Mae Fred yn aelod ffyddlon a chydwybodol yn y côr ac mae pawb yn meddwl amdano y ystod y cyfnod trist hwn.



Y myfyrwyr o Ohio yn Neuadd Ogwen yn gwrando ar y côr yn ymarfer


**J R Jones T2**

Tristwch mawr arall ddaeth i ran aelodau'r côr pan glywyd am farwolaeth un o'r aelodau mwyaf ffyddlon a brwd fu yn y côr erioed. Yn gymharol ddiweddar y daeth J R, fel y'i gelwid yn aelod o'r côr ar ôl symud i Ddyffryn Ogwen o Sir Drefaldwyn neu Ogledd Powys. Brodor o ardal Dolgellau oedd J R a bu'n rheolwr banc am flynyddoedd cyn ymddeol. Ymdaflodd i weithgareddau'r côr yn frwd ac ni fethai unrhyw ymarfer na chyngerdd ac yntau wedi cyrraedd ei 90 oed. Roedd o a'i briod yn cefnogi ac yn mynychu nifer o gymdeithasau lleol. Cydymdeimlir yn ddwys â'r holl deulu yn eu profedigaeth.

**Ymwelwyr o Ohio**

Yn ystod y mis dwytha daeth criw o tua 45 o fyfyrwyr a'u ffrindiau o Brifysgol Rio Grande, Ohio i ymarfer y côr yn Neuadd Ogwen. Anfonodd Dan Rowbotham, cyfarwyddwr Canolfan Madog ar gyfer astudiaethau Cymreig ym Mhrifysgol Rio Grande, Ohio ebost at y côr.

Yn yr ebost a welir isod mae Dan yn egluro beth ydy cynlluniau'r grŵp sydd dan ei ofal: *"Dan Rowbotham yw'n enw i, a dwi'n meddwl bod ein llwybrau wedi croesi yn yr Eisteddfod dros y blynyddoedd. Erbyn hyn dw i'n byw yn Ohio yn yr UDA ac yn gweithio gyda Megan Williams ar drefniadau NAFOW eleni, ac yn edrych ymlaen yn fawr at gael Côr y Penrhyn a Band Pres Llarregub draw yn Ottawa eleni! Er fy mod i'n aelod o'r bwrdd sy'n trefnu'r ŵyl, dw i hefyd yn gweithio llawn amser fel Cyfarwyddwr unig ganolfan Astudiaethau Cymreig Gogledd America. Eleni, dyn ni'n dod â chôr y brifysgol (12 o fyfyrwyr) dyn ni'n rhan ohono yn Ohio, ynghyd â 30 o ffrindiau'r ganolfan, yn gwneud cyfanswm o 45 ohonom ni i Gymru am bythefnos. Mae'r côr yn mynd i berfformio mewn gwahanol fannau gan gynnwys Eisteddfod yr Urdd ym Margam. Byddwn ni hefyd yn treulio amser yn y Gogledd cyn symud lawr i Aberystwyth am ychydig. Mae'r ddwy daith ar wahân, ond mae tipyn o draws groesi'n digwydd"*



Meinir Wyn Roberts

**Aelodau sy'n ysu i fynd ar y daith**



Henryd Jones



Maldwyn



Brynmor Jones

**Aelodau sy'n ysu i fynd ar y daith**

Mae aelodau Côr y Penrhyn yn edrych ymlaen i gyfarfod y myfyrwyr eto yn yr Ŵyl Gymreig yn Ottawa ddiwedd yr haf. Meddai, Henryd Jones, un o brif leiswyr y côr, "Mae cael mynd i Ogledd America eto yn antur na faswn i byth am ei cholli. Mae gen i deulu ymhob rhan o'r cyfandir o Boston i Los Angeles ac o Alaska i Alabama"

Isio gweld rhaeadr fawr Niagara unwaith eto oedd Brynmor Jones, un o ddau brif leiswyr rhes gefn y baswyr. "rôn i wedi fy nghyfareddu gan yr olygfa ysblennydd o filiynau o dunelli dŵr yn tasgu dros y rhaeadr" meddai Brynmor cyn ychwanegu, "rydw i wedi crwydro rhannau eang o'r byd ond hyd yma does unman gwell na Chymru. Er hynny, mae Rhaeadr Niagara yn sicr yn dod yn agos".

Roedd Maldwyn Pritchard hefyd yn gwbl gyffrous ac yn ysu i gael hedfan drosodd. Meddai Mald, sy'n cadw trefn ar gyllid y côr ac yn gantor o brofiad a sicrwydd, "Mi wnes i ffrindiau mynwesol yn America a Chanada pan ôn i yno o'r blaen a bydd cael cyfle i ail fyw rhai o'r profiadau cynhyrfus a brofais pan oeddwn yn ifanc yn rhywbeth i edrych ymlaen amdano."

**Cymanfa Fawr y Cymry yn Ottawa**

Pan fydd y côr yn perfformio o flaen cannoedd o bobl o dras Cymreig yng Nghanada bydd cantores o Gaernarfon, sef Meinir Wyn Roberts, yn perfformio ar y llwyfan efo nhw. Mae Meinir yn gantores o fri sydd wedi ennill gwobrau am ei chanu godidog mewn eisteddfodau yn ogystal â pherfformio mewn operâu amrywiol gydag Opera Genedlaethol Cymru. Yn cyfeilio iddi bydd aelod o Gôr y Penrhyn, sef Ross Craigmile. Mae Ross yn bianydd hynod o fedrus sydd wedi perfformio mewn operâu ar lwyfannau tai opera enwog yn Sbaen a'r Eidal. Mae Ross yn rhugl mewn Sbaeneg, Catalaneg ac Eidaleg. Gydag artistiaid fel rhain bydd gwledd o berfformiadau o flaen pobl yn Toronto, Rhaeadr Niagara ac Ottawa. Edrychwn ymlaen at yr adroddiadau fydd yn ymddangos yn y golofn hon ym Mis Medi.

# Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

## Cylch Meithrin Tregarth yn dathlu penblwydd arbennig yn 50!

Cofiwch ddod draw i'r Ganolfan yn Nhregarth, Dydd Sadwrn, Gorffennaf 19, rhwng 10 y bore a 2 o'r gloch y pnawn i fwynhau y dathliad.

Ers Mis Mehefin 1975 mae cannoedd o blant bach yr ardal wedi cael cychwyn da drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Cylch Meithrin. Cychwyn yn festri capel Penygroes gyda pump plentyn, sef Tony, Ffordd Tanrhiw; John Fferm Dinas; Judith Erw Faen; Cheryl, Bro Syr Ifor a'r diweddar annwyl Magwen, Gilfach, Dob. Atgofion arbennig o hapus a chriw bach yn cydweithio'n wych dan arweiniad cadarn Gwyn Williams, Chwarel Goch, Maud Griffiths, Dob yn ysgrifennydd a Beryl Hughes, Ffordd Tanrhiw adeg hynny yn Drysorydd.

Bydd arddangosfa o luniau ar draws y blynyddoedd, stondinau o bob math, raffl, paned, peintio wynebau, paned i bawb a chastell neidio! Rydym hefyd yn falch o groesawu cyn blantos, rhieni a ffrindiau, cyn arweinwyr a Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Ysgolion Meithrin sydd hefyd yn mawr obeithio y bydd yn gallu mynychu'r dathliad. Dewch yn llu.

**Profedigaeth**
Hynod o drist oedd clywed am farwolaeth Elizabeth (Bessie) Buckley yn dawel yn ei chartref 32 Maes Ogwen yn 85 oed ar Mehefin 5. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Fred ei phriod, Dewi a Jan, Linda a Heath, Kevin a Sara, Tony a Iona ei neiaint a nithoedd a'r diweddar Bryn. Roedd Bessie hefyd yn chwaer yng nghyfraith a hen fodryb hoffus ac yn ffrind i laweroedd. Bu ei hangladd yn Amlosgfa Bangor ar Fehefin 26.
Roedd yn driw iawn i Groesair Llais Ogwan a'i henw i'w weld mor aml wedi datrys y Croesair. Bydd hiraeth mawr ar ei hol.

Daeth y newyddion trist fod Brian Llewelyn Tocker, Cae'r Mynydd, Mynydd Llandygai, wedi ein gadael yn Ysbyty Gwynedd, ar Fai 29. Roedd Brian wedi'i eni a'i fagu yn Nhregarth, yn fab i Vivian ac Eirwen Tocker, yn frawd i Beryl a'r diweddar Marian, yn dad i Dewi a thad yng nghyfraith Claire ac yn daid i Caitlin, Sam ac Aaron ac yn ffrind i lawer. Bydd ei angladd yn Amlosgfa Bangor ar Orffennaf 9 am 11 o'r gloch. Cydymdeimlwn gyda'r teulu yn eu profedigaeth o golli Brian.

Daeth profedigaeth i deulu Lliwedd, Tal y Cae, pan fu farw mam Christine Morris Jones ar Fehefin 23 yn ei chartref yn y Bala. Pob cydymdeimlad i chi fel teulu.

**Gwaeledd**
Bu Vivian Williams, 2 Cerrig Llwydion, yn mynychu Ysbyty Glan Clwyd yn ddyddiol yn ystod mis Mehefin. Brysia wella Vivs gan bawb o dy deulu a ffrindiau.

Cofion at bawb o'r pentref sydd heb fod yn dda eu hiechyd yn ystod yr wythnosau diwethaf. Anfonwch air i ni ei roi yn y Llais am wellhad llwyr a buan.

**Gwella**
Croeso adra i Bro Syr Ifor i Cynthia Roberts. Mae Cynthia wedi bod yn Ysbyty Gwynedd ac Eryri ers rhai misoedd a mae siŵr bod Bob a'r teulu yn falch iawn i weld hi adra yn ôl. Brysiwch wella rwan Cynthia!

**Cangen Tregarth o Ferched y Wawr**
Nos Lun, Mehefin 3, daeth Dewi Gwyn Roberts o ardal Llanefydd i'r gangen i sgwrsio ar y testun 'Sandringham a'r byd'. Doedd gan neb syniad beth oedd yn ein disgwyl ac roedd hen edrych mlaen at ei gwmni. Daethom i sylweddoli mai am geffylau a cheffylau rasio yn arbennig roedd am siarad. Anodd ydi credu fod llanc o gyffiniau Dyffryn Conwy wedi bod yn gweithio i'r teulu brenhinol yn Sandringham, Swydd Norfolk, a chael cyfweliad gan y Frenhines Elizabeth 2il. A hynny heb hyd yn oed wisgo siwt i'r cyfweliad. Dywedodd mai dyna pam y cafodd y swydd! Bu yng ngofal ceffylau'r frenhines tan iddo benderfynu symud i weithio yn un o ffermydd stud yr Aga Khan yn yr Iwerddon. Cafodd gyfle wedyn i weithio ym myd ceffylau mewn gwledydd megis Seland Newydd ac Awstralia. Ond mae Dewi adra erbyn hyn ac yn gweithio ar fferm y teulu ond yn parhau ym myd y ceffylau. Barn pawb oedd iddynt gael noson werth chweil yn gwrando ar Dewi a hynny heb air o nodiadau o'i flaen. Gwych!

Mae gennym swyddogion newydd yn y gangen ar gyfer mis Medi a diolchwn iddynt am fod mor barod i ymgymryd â'r gwaith.

Y Cadeirydd newydd ydi Carys Dafydd, Braichmelyn. Mae teulu Carys wedi bod yn flaenllaw iawn gyda'r Mudiad er y cychwyn cynta yn Parc, y Bala. Ei mham, y diweddar Sylwen Lloyd Davies yn un o'r aelodau cynta' gyda'r sylfaenydd Sonia Bowen yn 1967.

Ysgrifennydd: Janet Davies

Trysorydd: Myfanwy Harper

Diolchwyd yn ddiffuant i'r cyn swyddogion fu'n arwain y gangen am y pedair mlynedd diwethaf, sef Carol Jones, Christine Morris Jones a Delyth Jones a'r dair yn gwneud y gwaith yn rhagorol. Diolch ferched !

Bydd gwibdaith y gangen yn gorffen y tymor ar Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 5, gyda thaith i'r Bala. Pawb i fwynhau.

Trist yw gorfod cofnodi aelod fu'n ffyddlon iawn i'r gangen, sef y diweddar Elizabeth (Bessie) Buckley, Maes Ogwen. Cawsom filoedd o hwyl yng nghwmni Bessie. Roedd yn donic bod yn ei chwmni. Cofion at Fred a'r teulu.

Daeth y newyddion trist fod mam Christine Morris Jones, ein cyn-ysgrifennydd, wedi marw yn y Bala a chydymdeimlwn gyda Christine, ei chwioryddd, ei brawd a gweddill y teulu yn eu hiraeth ar ôl colli eu mam.

Bydd y gangen yn cyfarfod am y tymor newydd Nos Lun, Medi 8 yn Festri Capel Shiloh am 7.30 ac yna ar y Dydd Llun cyntaf ym mhob mis. Dewch i'r gangen i gael digonedd o hwyl, cwmni difyr a nosweithiau diddorol ac addysgiadol!

## Capel Shiloh Newydd

Oedfaon am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol
**Gorffennaf 20**: Trefniant Lleol
**Gorffennaf 27**: Oedfa ar y cyd gydag eglwysi eraill yng Nghapel Saron, Bethel am 1.30 dan ofal y Parchedig Philip Barnett, Swydd Efrog.

Dim oedfaon ym Mis Awst

**Medi 7**: Olaf Davies, Llandegfan
**Medi 14**: Dr Ian Morris
**Medi 21**: Iwan Llewelyn Jones, Porthmadog
**Medi 28**: Gwyndaf Jones, Bangor

*Drws Agored*
Bob bore Gwener rhwng 10 a 12 o'r gloch cyfle i gyfarfod ffrindiau a mwynhau cwmni eraill o'r gymuned. Un sydd yn dod yn selog i Shiloh ar fore Gwener ydi Eddie Roberts, Llanfairpwll, ond yn wreiddiol o Fethesda. Yn ddiweddar daeth ag englyn o waith William Griffiths, Hen Barć, Llanllechid i 'Capel Siloh,' Tregarth' o'r llyfr 'Byr a Phert' a gyhoeddwyd yn 1928 gyda rhagair gan y bardd o Coetmor R. Williams Parry. Diolch Eddie!

Capel Siloh, Tregarth
Ty i'r egwan gael trigo-o dan nawdd
Duw y nef ydyw Siloh;
Nwydd i fyd geir ynddo fo,
A heddwch ond troi iddo.

## Y Gerlan

**Caren Brown**
07789 916166 carenelaine@hotmail.com

**Cydymdeimlo**
'Rydym yn cydymdeimlo'n fawr efo Gwenno Hodgkins a Huw yn eu profedigaeth. Bu farw chwaer Gwenno, Audrey, yn ddiweddar iawn. Cofion cynhesaf atoch ac i'r teulu i gyd yn ystod yr amser anodd yma.
Gyrrwn ein cydymdeimlad at Gwenfair Jones, Gwernydd, ei brawd Aneurin a'r teulu i gyd gan iddynt golli eu mam, Jane Jones. 'Roedd Mrs Jones wedi dilyn gyrfa fel nyrs am flynyddoedd ac yn cadw siop chips yn Gerlan efo'i gŵr, Anthony, am gyfnod hefyd. Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys Crist Glanogwen ar y 27ain o Fehefin.

**Myfyriwr y Flwyddyn**
Llongyfarchiadau mawr i Lleu Humphreys-Jones Stryd yr Allt ar gael ei ddewis yn fyfyriwr y flwyddyn ar y Cwrs Celf Sylfaenol yng Ngholeg Menai eleni. Llongyfarchiadau mawr i ti Lleu a phob dymuniad da i ti ar y cam nesaf yn dy yrfa.



**Priodas**
Ar ddydd Sadwrn y Pasg, Ebrill 19eg, bu priodas Elfyn, mab Elfed a Rita Bullock Bethesda a Sharon, merch Andrew ac Ann o Llanddeiniolen yng Ngwesty'r Celt yng Nghaernarfon. Cafwyd diwrnod bendigedig a thywydd braf. Mae'r ddau yn ymgartrefu'n Bryn Caseg – y ddau heb symud ymhell o'u milltir sgwâr. Pob dymuniad da i chi'ch dau.



**9Bach yn Gigio eto!**
Dechrau Mehefin, 'roedd Neuadd Ogwen yn fwrlwm wrth i 9Bach chwarae eu gig gyntaf yn y pentre' ers rhai blynyddoedd. 'Roedd yn noson arbennig a'r caneuon hen a newydd yn plesio'r gynulleidfa'n fawr. Diolch i Lisa a Martin a gweddill y band am noson i'w chofio. 'Roedd 'na gerddorion eraill yn cefnogi ar y noson a chafwyd set agoriadol gan Carwyn o Stryd y Ffynnon sydd yn cael ei adnabod fel "Bethesda Shipping Company". Diolch am gynhesu'r gynulleidfa!



### Caban Gerlan

Cynhaliwyd Caffi Trwsio llwyddiannus arall ar y 29ain o Fehefin. Bydd y nesaf yn cael ei gynnal dydd Sul y 27ain o Orffennaf rhwng 11 ac 1 o'r gloch. Dyma chydig o gwsmeriaid hapus y sesiwn mis Mehefin.

Gareth Williams
TREFNYDD ANGLADDAU
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

BARBWR OGWEN
Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Natasha

Ogwen
Adferiad Corfforol
Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN
Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen
Eli Lichtenstein 07743373895 | info@ogwenphysical.co.uk | ogwenphysical.co.uk
Bethesda RFC Dol Dafydd, Bethesda, Bangor LL57 3NE

L. STURRS
A'I FEIBION
SEFYDLWYD YN 1965
ADEILADWYR
HEN IARD STESION,
FFORDD Y STESION, BETHESDA
FFÔN: 600953
isturrs@googlemail.com

# CHWILAIR



## CURADIAID EGLWYS SANTES LLECHID

Yn y Chwilair mis yma mae enw deuddeg curad eglwys Santes Llechid, rhwng 1504 a 2003 i'w darganfod. Byddwch yn ofalus - mae enw canol neu lythyren gyntaf i enw canol yn rhai o'r atebion. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y** Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 31 Gorffennaf. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nad oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.**

Nifer ohonoch wedi rhoi NIA fel ateb i Chwilair mis Mehefin, ond yn anffodus wedi disgyn yn y drefn yna oedd y llythrennau. Gai ddiolch yn fawr iawn hefyd i bob un ohonoch am anfon eich atebion i fewn o fis i fis gan gofio fod pris stamp mor ddrud y dyddiau hyn.

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | S | N | I | K | N | E | J | N | H | O | J | W | F | H | R | I | E | J |
| L | C | M | B | V | B | H | X | J | U | I | S | V | D | S | W | H | E | I | R |
| M | G | V | H | M | D | W | H | U | Z | M | X | A | V | I | A | D | D | O | N |
| A | P | A | U | Q | U | S | O | F | R | P | V | Y | L | Q | Z | G | B | R | H |
| C | N | E | W | O | Y | R | N | E | H | I | U | L | M | W | N | E | L | O | Y |
| R | I | A | S | Z | U | T | F | D | D | X | I | U | P | W | R | R | E | H | C |
| Q | H | W | E | H | O | Y | E | R | E | A | G | Y | S | T | E | O | W | M | H |
| S | E | E | P | T | T | C | I | B | M | B | R | C | M | U | U | J | I | P | L |
| A | T | M | N | I | V | C | V | L | D | R | C | O | A | B | B | F | S | R | F |
| M | O | G | J | Y | H | V | L | I | A | I | R | R | I | R | X | I | O | M | H |
| O | T | T | O | A | A | O | S | P | K | R | O | P | L | W | R | C | W | M | K |
| H | C | B | R | O | Y | P | S | R | I | C | X | V | L | R | Y | H | E | S | T |
| T | M | D | R | D | E | U | N | S | F | Y | J | D | I | Z | H | B | N | C | W |
| D | S | O | S | C | M | R | J | H | A | I | X | N | W | I | L | X | J | J | M |
| I | B | W | T | S | E | O | X | M | O | D | X | K | J | F | U | P | C | Q | Y |
| V | O | I | A | L | N | F | E | R | Z | J | Q | R | N | O | C | T | D | G | W |
| A | S | R | L | E | Z | E | E | V | A | N | E | V | A | N | S | B | E | A | J |
| D | E | K | S | I | R | R | A | P | S | Y | H | R | U | J | C | L | N | L | R |
| V | O | G | J | P | W | P | G | S | O | W | J | J | E | Q | U | L | F | S | V |
| T | X | E | U | G | H | S | L | Z | E | A | F | X | I | I | W | T | Z | H | K |

**Dyma atebion Chwilair Mehefin**:- Ar y Marc; Bore Cothi; Caniadaeth y Cysegr; Caryl; Dei Tomos; Galwad Cynnar; Heledd Cynwal; John Hardy; Mirain Iwerydd; Post Prynhawn; Swyn y Sul; Tudur Owen.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd hyd i'r atebion cywir**:- Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Judith Hughes, Llangoed; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Rosemary Williams, Tregarth; Nia Wyn Bagnall, Llandygai; Doris Shaw, Bethesda; Gwen Davies, Bethesda; Arthur Rowlands, Bala; Dewi Lewis-Jones, Llandegfan; Menna Davies, Llanfairpwll.
**Enillydd Mehefin oedd**:- Menna Davies, Carwyn, 16, Y Garnedd, Llanfairpwll Ynys Môn LL61 5EX.


Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead cyf
Swyddfa Gofrestredig Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

# Natur o'n Cwmpas

## Yr Eog

Pysgodyn cyfarwydd iawn i bysgotwyr Dyffryn Ogwen a'r tu hwnt drwy'r canrifoedd yw'r eog. Mae o'n greadur trawiadol iawn, a'i gig yn flasus, a mawr fu'r awydd i'w ddal. Fodd bynnag, o ganlyniad i ostyngiad difrifol yn niferoedd eogiaid, newidiwyd y gyfraith yn 2022. Ers hynny, ni chaniateir pysgota pryf genwair, dim ond troelli neu ddefnyddio pluen heb dagell (adfach) ar y bachyn, a rhaid rhoi'r eog yn ôl yn yr afon.

Pysgodyn mudol yw'r eog, a bu afon Ogwen a'r ffrydiau sy'n ymuno â hi yn dynfa erioed i eogiaid. Dyma englyn a gyhoeddwyd gan Hugh Derfel Hughes yn *Hynafiaethau Llandegai a Llanllechid* yn 1866:

Daw'r eogiaid o'r eigion – i fyny
Hyd fynwes Nant Ffrancon;
Fyny i'w dal o drefniad lôn
O'i ddaioni i ddynion.

O ogledd Môr Iwerydd y daw'r eogiaid, gan oedi yn sianel afon Menai oddi ar Fiwmares cyn symud gyferbyn ag Aberogwen a mynd i fyny'r afon pan fo digon o li ynddi. Ni fedrai'r eogiaid fynd cyn belled â Nant Ffrancon tan 1843 pan benderfynodd yr Arglwydd Penrhyn ar y pryd, sef Edward Gordon Douglas-Pennant, drefnu i'w weithwyr ddryllio'r creigiau yr ochr isaf i Bont Ceunant yn Nhy'n y Maes.

Afon redegog, yn llifo o bwll i bwll rhwng creigiau, yw afon Ogwen, ac eithrio pan yw'n rhedeg drwy wastadeddau Parc Penrhyn a Nant Ffrancon (lle mae hi'n llawer llai o farwddwr nag y bu). Yn wahanol i brofiad eogiaid afon Conwy, nid yw'n daith rwydd, ac maent yn dibynnu ar lif cymharol dda i allu nofio drwy nifer o byllau ar y tro. Ceir dau rediad o'r eogiaid i fyny'r afon, sef yn y gwanwyn ac yn yr hydref. Yr enw ar eog yr hydref yw 'coch y dail' gan fod ei liw yn tueddu i gochi adeg cwymp y dail.

Fel rhan o'u cylch bywyd di-dor ers miloedd o flynyddoedd, bydd y pysgodyn benywaidd (hwyfell yw'r enw arni - iâr' y gelwir hi gan y pysgotwyr) yn defnyddio ei chynffon i wneud pant yn y gro i ddodwy ei hwyau (ei grawn). Bydd hyn yn digwydd yn y pyllau islaw Rhaeadr y Benglog ym mhen uchaf Nant Ffrancon. Bydd rhai'n mynd i fyny afon Ffrydlas cyn belled â'r pyllau dan Rhaeadr Bont Uchaf, ac eraill i fyny afon Gaseg hyd



at bwll Ceunant Uffern. Gorchwyl y pysgodyn gwrywaidd (cemyw yw'r enw arno - 'ceiliog' ar lafar) yn chwistrellu ei had dros yr wyau, cyn i'r hwyfell ysgwyd ei chynffon fel bod y gro o bobtu'r wyau yn eu gorchuddio i'w cadw'n ddiogel. Dyma pam y disgrifir y broses hon fel 'claddu'.

Yr enw ar yr eogiaid bychain newydd ddeor yw 'mag', a phan fyddant wedi tyfu ychydig gentimetrau o hyd yr enw arnynt yw 'sil y gog', a byddant yn cychwyn ar eu taith i lawr yr afon yn Ebrill a Mai (yn ystod cyfnod y gog yma) ar eu ffordd i ogledd Môr Iwerydd. Enw arall ar yr eog yn ei flwyddyn gyntaf yw 'gleisiad' oherwydd bod ei gefn yn las ariannaidd. Ar ôl cyfnod o flwyddyn i bedair blynedd yn y môr bydd yn dychwelyd i fan ei eni yn yr afon.

Mae eogiaid gweddol fawr wedi eu dal yma dros y blynyddoedd. Llwyddodd Cecil McCarter i ddal un 36 pwys, ond ni wyddom beth oedd pwysau'r eog mwyaf a gafodd ei ddal drwy botsio! Mae Hugh Derfel Hughes yn ei gyfrol (1866) yn nodi bod eog 65 pwys wedi ei ddal yn Llyn Gorllwyn o dan Pen-lan ger Llandygái. "Amhosibl," medd rhai. "Annhebygol," medd eraill. Wrth gwrs, heb gofnod swyddogol ar y pryd, ni ellir bod yn sicr. Fodd bynnag, mae cofnodion swyddogol yn cadarnhau bod eogiaid o'r maint hwn wedi dod i fyny afonydd Cymru. Dyma rai: afon Gwy: eog 59 pwys 8 owns yn 1923, ac eog 51 pwys 8 owns mor ddiweddar ag 1963; ac afon Wysg: eog 68 pwys 8 owns yn 1782. Wrth gwrs, mae'r afonydd hyn yn llawer lletach a dyfnach nag afon Ogwen.

---

Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.

# Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,** Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB (01248 601318)
carys16@hotmail.com

---

**Cydymdeimlo**

Am yr ail fis yn ddilynol, mae'n drist adrodd bod yr ardal wedi colli aelod arall o'r gymuned.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i deulu'r diweddar Barry Ellis, Tŷ Newydd.

Roedd Barry yn enedigol o dde Cymru ond wedi ymgartrefu ym Mhentir ers blynyddoedd ac wedi ymddeol o'i swydd yng Ngholeg Menai.

## Eglwys St. Cedol, Pentir

**Te Hufen**

Bydd Te Hufen yn cael ei gynnal prynhawn Sadwrn, 19 o Orffennaf am 2.30yp yng nghartref Mair a Nia, Gwaunydd, Hafod Lon, Rhiwlas. Bydd yr elw yn mynd tuag at Gronfa Atgyweirio'r Eglwys.

**Clwb Crefftau**

Bydd Clwb Crefftau Eglwys St. Cedol, sef Dwylo Dawnus yn cyfarfod yn wythnosol ar brynhawn Gwener am 2yph yn yr Eglwys. Dewch a'ch crefft neu dewch i ddysgu crefft newydd dros panad a sgwrs.

**Te Bach**

Mae eglwys St. Cedol yn cynnal ei Dê Bach ar brynhawn Mercher cyntaf o'r mis am 2 o'r cloch, bydd y Tê Bach nesaf a 6 o Awst 2025 ac yna ar y 3 Medi 2025. Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni am brynhawn hwyliog gyda phanad, teisan a sgwrs.

**Raffl Misol**

Rydym cynnal Raffl o Hamper Misol ar themâu gwahanol bob mis er mwyn codi arian i cynnal yr Eglwys, enillydd yr Hamper Mis Mehefin oedd Eirwen, yn roddedig gan James.

Diolch i'r aelodau, ein teuluoedd a'n teuluoedd estynedig am fod mor barod i brynu'r tocynnau raffl, hefyd i'r aelodau a ffrindiau sydd wedi bod mor hael yn eu rhodd o'r hamperi. Diolch o galon i chi gyd.

**Manylion cyswllt**

Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall yn ymwneud â'r eglwys, cysylltwch â'r Parch. Ddr Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen: gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 361521, cofiwch fod Nia (warden) 07719 918686 yna i chi os am unrhyw wybodaeth neu sgwrs

# YSGOL LLANLLECHID

### Sgleinio'r Lleuad
Aeth dosbarthiadau Mrs Bethan Jones a Mrs Wilson i theatr Pontio ym Mangor i weld sioe Sgleinio'r Lleuad gan gwmni Arad Goch yn ddiweddar. Pawb wedi mwynhau!

### Hanes Lleol
Pleser oedd croesawu Mrs Helen Williams a Mr Eifion Hughes i'r ysgol i drafod hanes lleol hefo rhai o'n plant hynaf. Cafwyd sesiwn arbennig, a chyfle i ddysgu cymaint am ein hardal leol. Cawsom wybod fod ugain o siopau a busnesau yn y pentref ers talwm, ac roedd cynnwrf mawr pob tro pan oedd hi'n amser Ffair Llan, y Carnifal a thrip Ysgol Sul.

Trafodwyd fel yr oedd y llyfr ration wedi dod i ben ar Orffennaf 4ydd 1953, a'r rhyddhad gan bawb fod y cyfnod hwnnw wedi dod i ben. Soniwyd am Mr a Mrs Petts, oedd yn byw yn nhop Cae Llwyn Grydd, a'u cyfraniad, ynghyd ag Eos Llechid, Owen Humphrey Davies a Wiliam Gruffydd, Hen Barc. Cawsom wybod hefyd am rai eraill o gymeriadau'r ardal sef Huw Sgŵd, Madam Chips, Eos Llechid - Owen Humphrey Davies, i enwi ond ychydig! Diddorol oedd dysgu am Dance John P, oedd yn hynod boblogaidd, a doedd neb yn cofio fod Ffatri Gocos yn arfer bod yma! Braf oedd gwrando ar yr holl hwyl oedd pobl yn ei gael yn y Siop Barbar.

Cawsom hwyl yn gwrando ar anturiaethau Wil Wandering, oedd yn trwshio pob math o bethau ac yn prynu fish a chips pob nos Wener – chips iddo fo a pysgodyn i'r ci!! Roedd y plant yn gwrando'n astud wrth i ni glywed fod pawb yn siarad Cymraeg, heblaw am un teulu oedd yn cadw siop dros y ffordd i gapel Carmel a'r merched Pat a Jen.

Diddorol hefyd oedd clywed am yr enw Rachub. Yn ôl pob sôn Yr Achub yw'r tarddiad, ac mae hanesyn yn dweud fod yna un milwr ar ffô yn ystod amser Oliver Cromwell, a bod pobl Rachub wedi ei guddio a'i gadw'n ddiogel. Diddorol iawn oedd cael y cyfle i ddysgu am ein cynefin yn modd yma.

Diolch o waelod calon i Mrs Helen Williams a Mr Eifion Hughes am fod mor barod i rannu eu gwybodaeth a'u hatgofion hefo ni. Arbennig iawn.

### Ffair Haf Ysgol Llanllechid
Ar un o ddiwrnodau poethaf y flwyddyn, cynhaliwyd Ffair Haf fendigedig ar gae yr ysgol, a daeth holl gymuned yr ysgol i'n cefnogi unwaith yn rhagor. Braf iawn gweld pawb ohonoch. Mae'r digwyddiad yn rhan mor bwysig o fywyd yr ysgol, ac roedd yn fendigedig gweld cymaint o deuluoedd a ffrindiau'r ysgol wedi dod ynghyd.

Diolch arbennig i Ceri Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Rhieni/Athrawon am ei gwaith diflino yn arwain y Pwyllgor, a diolch i'r holl aelodau. Casglwyd £812.74 tuag at gronfa'r ysgol. Diolch i bawb am eich haelioni.

Llawer iawn o ddiolch hefyd i'r Cyfeillion am eu haelioni tuag at Mrs Gwenan Davies Jones ar ddiwedd ei chyfnod yn Ysgol Llanllechid.




### Criced
Da iawn chi tîm Llanllechid am ddod yn fuddugol yn y twrnament Criced yn ddiweddar. Aethpwyd ymlaen i'r rownd nesaf yng Nghlwb Criced Porthaethwy a chael y drydedd wobr. Arbennig o dda!

### Taith i Benmon
Cafodd ein disgyblion ieuengaf daith arbennig i Benmon, a chyfle i gerdded ar lan y môr, a gweld y goleudy. Cafwyd diwrnod i'r brenin!

### Cynhadledd Heddwch
I'r Ysgwrn yr aeth dosbarth Mr Stephen Jones i gymryd rhan mewn cynhadledd heddwch. Rhannwyd negeseuon pwysig a phawb yn sylweddoli pa mor bwysig yw cariad at gyd-ddyn beth bynnag eu hîl, mewn cyfnod lle mae'r byd yn le hynod o anwadal.

### Dymuniadau da
Ymddeoliad hapus i Mr Gethin Thomas a phob dymuniad da yn y swydd newydd.

### Cydymdeimlo
Daeth y newyddion am farwolaeth y Dr Brian Jones fel sioc enbyd i ni i gyd, ac anfonwn ein cydymdeimlad dwys at yr holl deulu a ffrindiau. Roedd Dr Brian Jones yn aelod gwerthfawr iawn o'n Llywodraethwyr, ac roedd yn gallu rhannu ei brofiad helaeth ym myd addysg hefo ni i gyd. Bydd hi'n chwith iawn ar ei ôl, ac mae ein meddyliau hefo chi i gyd fel teulu, a'r ardal gyfan ar adeg hynod drist.

### Rygbi ar y Traeth
I Fae Colwyn yr aeth rhai o'n disgyblion hynaf i chwarae rygbi ar y traeth! Dyna braf! Meddai Mr Stephen Jones fod ein timau ni wedi llwyddo i sgorio saith deg o geisiadau! Roedd gennym bedwar tîm yn chwarae yno, a thri ohonynt yn llwyddo i beidio colli gêm o gwbwl! Dipyn o gamp! Da iawn chi!





**Barddoni hefo Meirion Macintyre Huws**

Cafodd dosbarthiadau Mrs Wilson a Miss Gwenlli Haf y cyfle i greu barddoniaeth ar y cyd hefo Mei Mac – profiad arbennig iawn:

Pwy sy'n cofio'r Santes sydd a'i henw yn parhau
A'r hen bregethwr ffyddlon ger y capel wedi cau
A'r hoelion mawr blinedig yn drwm ar derfyn dydd
A'r sgyrsiau hir, diddorol ar ganol Cae Llwyn Grudd.

Yn gwneud dim byd ond mynd a dod,
Mae'r glaw yn cofio siŵr o fod.

Pwy sy'n cofio'r defaid fu'n poeni'r ardal hon
A siarad iaith y nefoedd yn golygu trawiad ffon
A phwy sy'n cofio Idris yn torri'r rhuban goch
Ym mhennau pwy'n Llanllechid mae hyn yn canu cloch?

Yn gwneud dim byd ond mynd a dod
Mae'r eira'n cofio siŵr o fod.

Pwy sy'n cofio'r cledrau yn chwibianu ddydd a nos
A gwragedd blin yn gweiddi "rhag dy gywilydd, fradwr, dos!"
A'r arglwydd 'punt y gynffon', y forthwyl trwm a'r cŷn,
A'r sofren felen ddisglair yn hollti teulu dyn.

Yn gwneud dim byd ond byw a bod
Mae'r llechi'n cofio siŵr o fod.



**Cyflwyno Proffil Personol yn Ysgol Dyffyrn Ogwen**

Yn ystod mis Mehefin cafodd Gwenan Davies Jones wahoddiad i fynd i Ysgol Dyffryn Ogwen i gyflwyno tystysgrifau i ddisgyblion Blynyddoedd 11 a 13, oedd yn fraint yn wir. Hyfryd iawn oedd gweld holl ddisgyblion y dalgylch, ond hyfrydwch pur oedd cael gweld ein cyn-ddisgyblion yn bobl ifanc, dalentog. Diolch yn fawr i Mr Dylan Davies am y gwahoddiad, a phob dymuniad Mr Davies i chi yn ystod eich ymddeoliad.

Mrs Gwenan Davies Jones sy'n bwrw golwg yn ôl ar ei hamser fel Pennaeth Ysgol Llanllechid wrth iddo ymddeol yr haf yma.

**Daeth yr awr!**

Mae yna sbelen yn ôl bellach ers i mi ddechrau ar fy nhaith yn Ysgol Llanllechid. Ionawr 1997 oedd hi, a minnau newydd ddod yn ôl o wyliau yn Ne'r Affrig, ac wedi cael blas ar ddarllen y llyfr eiconig hwnnw, 'Long Walk to Freedom.' Cofiaf yn dda, yn ystod y gwasanaeth cyntaf yn neuadd yr ysgol, ar fore cyntaf y tymor, mai apartheid, a pharchu ein cyd-ddyn oedd y thema! Wel, mae llawer tro ar fyd; gwasanaeth, a chyfnodau byrlymus yn y neuadd wedi bod ers hynny, ac rwy'n meddwl yn aml: I ble aeth yr holl amser?! A'r bore cyntaf yna yn teimlo fel ddoe!

O'r cychwyn cyntaf, roeddwn yn ymwybodol fod gennyf esgidiau mawr i'w llenwi, gan fy mod yn olynu yr annwyl Mr Arwyn Oliver; a hefyd Mr Dilwyn Owen; gŵr bonheddig yn wir.

Rwy'n cyfrif fy hun yn ffodus i mi gael y cyfle i gyd-weithio hefo cymaint o bersonoliaethau talentog, mewn sawl maes, a chael y cyfle euraidd hwnnw i gyd-ddysgu, cyd-weithio a chyd-ddyheu hefo'n gilydd. Tîm ydan ni wedi bod ar hyd y blynyddoedd; tîm cryf, fel yr hen goeden dderwen ystrydebol yna!

Pen llanw'r holl syniadau, y systemau a'r safonau uchel oedd i Ysgol Llanllechid dderbyn adroddiad unigryw ac ardderchog ym mis Mai 2024 gan Estyn. Roedd yr adroddiad yn datgan mai'r unig faterion i weithredu arnynt oedd parhau i droedio ein llwybr arbennig ni!

Yn greiddiol i'r cyfan oll y mae'r iaith Gymraeg, ac nid ar chwarae bach y mae ein plantos ni yn meddu ar agwedd iach tuag at y Gymraeg, ac yn ei siarad yn rhugl a hyderus o ddydd i ddydd hefo'i gilydd yn yr ysgol. Cymaint yw llwyddiant yr ysgol yn hyn o beth, fel y trefnwyd bore agored i athrawon, prifathrawon a swyddogion y Gymraeg ledled y Gogledd, i ddod draw i'n hysgol fach ni, er mwyn i ni gael y cyfle i rannu ein harferion arloesol. Yn y cyswllt yma, mae cymaint i'w ganmol, a chymaint i'w drysori a'i warchod.

Mae gennyf atgofion lu – o'r llon i'r lleddf, sy'n llawer rhy niferus i'w cofnodi yn y golofn yma. A gallaf ddweud, yn ddi-flewyn ar dafod i mi gael gwefr anhygoel yn arwain Ysgol Llanllechid, ac mae ein plantos arbennig ni yn greiddiol i'r cyfan oll.

Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i bawb a weithiodd, ac sy'n gweithio ar hyn o bryd yn Ysgol Llanllechid; rhy niferus i'w henwi, am eu hymroddiad di-ben-draw i'n disgyblion. Yn yr un modd, diolchaf i holl aelodau'r Llywodraethwyr y bum yn cyd-weithio â nhw ar hyd y blynyddoedd; i Mrs Iona Robertson, ac yn arbennig i Mr Walter Williams a fu'n Gadeirydd cadarn am nifer helaeth o flynyddoedd, ac i Mr Huw Jones, ein Cadeirydd presennol.

Diolch arbennig iawn i holl aelodau'r gymuned leol am eu cefnogaeth, cynhesrwydd a'u hiwmor; ac yn arbennig i Mrs Helen Williams am barhau gyda'r bartneriaeth gref sy'n bodoli rhwng Ysgol Llanllechid a Chapel Carmel; hefyd i Gyfeillion yr Ysgol o dan gadeiryddiaeth Mrs Ceri Evans, yn bresennol. Rhaid i mi enwi Gillian Griffith, neu Anti Gill i ni yn yr ysgol; anghofiaf i fyth, ar adegau pan fyddwn yn gweithio'n hwyr, byddai'n dod a chacen lys i mi, yn syth o'r popty, wedi ei chrasu'n berffaith – a finne yn aml yn bwyta ei hanner cyn cyrraedd adre! Un arwydd bychan o garedigrwydd pobl y fro, oedd yn golygu cymaint i fi a'r ysgol. Mae pawb yn adnabod Miss Leanne; rwyf wedi cael y pleser o weithio'n agos hefo Miss Leanne am flynyddoedd lawer, - cydweithio'n hapus ar hyd y blynyddoedd; mi fuasen ni'n gallu sgwennu llyfr! Diolch hefyd i Anti Wendy am bopeth, Anti Wendy ddaeth a'i llestri gorau i'r ysgol pan oeddwn yn cael fy nghyfweld! Anti Sharon rwan hefyd yn werth y byd! Cant a mil o atgofion yn dod i'r cof!

Ar ddiwedd y tymor hwn, byddaf yn trosglwyddo'r baton i ddwylo medrus Mrs Llinos Wilson a fydd yn ymgymryd â'r swydd yn ystod Tymor yr Hydref. Dymunaf bob llwyddiant iddi yn ei rôl newydd; braint yn wir yw cael cyfle i arwain "y plant bach gorau yn y byd!"

Daliwch ati bois, ac yn fwy na dim, daliwch ati i hyrwyddo a datblygu Iaith y Nefoedd, gydag angerdd!

Dymuniadau gorau i chi oll ddarllenwyr Llais Ogwen, a diolch am bob cymwynas a chymorth ar hyd y daith.

Bu'n fraint!

**Gwenan**

O.N Hwn yw'r tro olaf i mi ysgrifennu pwt i Llais Ogwen, ar ôl gwneud hynny yn fisol ers 1997, heblaw am ambell gam gwag – dim ond llond llaw o'r rheiny!

# Llythyrau

**Annwyl Ddarllenwyr**,
Mae Zip World ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad ar becyn budd cymunedol sy'n gysylltiedig â'u cynigion i ddatblygu atyniadau twristiaeth newydd yn Nyffryn Ogwen a Blaenau Ffestiniog. Mae hyn yn gyfle hollbwysig i'r gymuned leisio barn ac i ddylanwadu ar y buddion posib y gallai'r prosiect eu cynnig i bobl leol.

Yn ystod sesiynau diweddar a drefnwyd gan Zip World, gan gynnwys un ym Methesda, daeth yn amlwg bod cryn ddryswch o ran beth yw pwrpas yr ymgysylltu. Yn hytrach na gwrando'n weithredol ar y gymuned, bu'r digwyddiadau hyn yn gyfle i'r cwmni gyflwyno eu syniadau presennol - yn hytrach na creu gofod gwirioneddol ar gyfer barn y trigolion.

Mae'r syniad o sefydlu cronfa waddol gymunedol - cronfa barhaol fyddai'n cefnogi mentrau lleol yn Nyffryn Ogwen a Blaenau Ffestiniog - wedi'i godi dro ar ôl tro gan aelodau o'r cyhoedd ac arbenigwyr. Serch hynny, mae Zip World wedi gwrthod cynnwys syniad o'r fath yn eu pecyn budd cymunedol.

Mae'r pecyn budd cymunedol sydd wedi'i rannu hyd yma yn ymddangos, yn anffodus, fel un sy'n canolbwyntio ar fentrau fydd yn gwasanaethu anghenion y cwmni ei hun yn bennaf, yn hytrach na darparu buddion sylweddol a diriaethol i'r gymuned leol. Nid yw'n glir sut y bydd y buddion hyn yn cael eu rheoli, na sut y bydd cymunedau lleol yn elwa'n ymarferol ohonynt.

Er hynny, mae Zip World wedi nodi eu bod yn agored i adborth ar y ddogfen hon. Mae'n hanfodol felly bod trigolion lleol yn cael cyfle gwirioneddol i'w darllen a mynegi eu barn. Os hoffech gopi o'r pecyn drafft, cysylltwch â mi yn uniongyrchol ar e-bost: **cynghorydd.becaroberts@gwynedd.llyw.cymru**

Mae eich llais yn bwysig. Os ydych yn teimlo nad ydi'r buddion a gynigir gan Zip World yn adlewyrchu anghenion eich cymuned - neu fod cyfleoedd pwysig wedi'u hanwybyddu - dyma'ch cyfle i ddweud hynny'n glir.

Yn y cyfamser, mae trafodaethau'n parhau'n lleol i sefydlu cronfa gymunedol wirioneddol ystyrlon, waeth beth fydd penderfyniad Zip World. Ond mae'n hanfodol bod unrhyw brosiect a gynhelir yn ein cymunedau yn adlewyrchu blaenoriaethau'r bobl sy'n byw yma.
Yn gywir,
Rebeca Roberts

**Annwyl Ddarllenwyr**,
Fel y gwyddoch, mae gwarchodfa natur Aberogwen, sydd dan ofal Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, yn atynfa unigryw a hynod, ac yn gyrchfan boblogaidd i naturiaethwyr ac i'r cyhoedd yn gyffredinol o bell ac agos. Canolbwynt y warchodfa yw Llyn Celanedd sy'n gynefin i amrywiaeth eang o adar.

Am ryw reswm neu'i gilydd, rhoddwyd yr enw Saesneg 'The Spinnies' ar y lleoliad flynyddoedd yn ôl bellach, ond mae'r enw Cymraeg 'Llyn Celanedd' yn hen enw sy'n ganrifoedd oed ac yn gydnaws ag enwau lleoedd Cymraeg eraill yr ardal, megis enwau'r ffermydd, y caeau, y traeth, y cefnau tywod a phyllau'r glannau.

Mae i'r llyn ran bwysig yn ein hanes lleol ac yn hanes Cymru fel cenedl. Pwll yn afon Ogwen oedd Llyn Celanedd cyn i'w chwrs gael ei newid i gyfeiriad y gorllewin yn nechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.


Llyn Celanedd



Hysbysfwrdd 'The Spinnies'

Ystyr 'celanedd' yw cyrff meirw. Dengys y dystiolaeth hanesyddol fod aelodau ymadawedig teulu'r Penrhyn wedi bod yn cael eu cludo o'r plasty i Gapel Ogwen gerllaw Llyn Celanedd cyn eu rhoi mewn cwch a'u cludo dros afon Menai i fynwent neilltuol yn Llanfaes. Roedd y gladdfa hon wedi ei chreu oddeutu 800 mlynedd yn ôl ar gyfer aelodau teulu brenhinol a theuluoedd uchelwrol Gwynedd, gyda Siwan, gwraig Llywelyn Fawr, ac Elinor, gwraig Llywelyn ap Gruffudd, wedi eu claddu yno.

Rydym yn siŵr eich bod yn cytuno bod ein enwau lleoedd yn elfen hanfodol yn ein hetifeddiaeth Gymreig, a byddai'n symudiad cadarnhaol arwyddocaol pe bai'r enw 'Llyn Celanedd' yn cael ei ddefnyddio yn lle 'The Spinnies' ar y warchodfa. Enghreifftiau diweddar o barchu ac arddel enwau lleoedd Cymraeg ydy newidiadau a wnaed gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan cefnogaeth i'r egwyddor o warchod enwau lleoedd Cymraeg ac yn bwriadu gweithredu mesurau i'r diben hwnnw.

Os nad ydych wedi gwneud eisoes, byddem yn falch iawn pe baech yn anfon at Frances Cattanach drwy e-bost (**Frances.Cattanach@northwaleswildlifetrust.org.uk**) neu drwy bostio llythyr i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Llys Garth, Ffordd Garth, Bangor, Gwynedd LL57 2RT gyda chais i'r ymddiriedolwyr ddefnyddio'r enw 'Llyn Celanedd' yn lle 'The Spinnies' ar warchodfa natur Aberogwen. Pe dymunech, gallech ddefnyddio'r neges barod isod.

Yn gywir,
Ieuan Wyn
Emyr Roberts
Rhys Parry

**Annwyl Ymddiriedolwyr**,
Mae enwau lleoedd Cymraeg yn rhan hanfodol o'n treftadaeth, a dylid eu parchu a'u gwarchod drwy eu harddel a'u defnyddio. Felly, gofynnaf yn garedig i chi ddefnyddio'r enw 'Llyn Celanedd' yn lle'r enw 'The Spinnies' ar eich gwarchodfa natur yn Aberogwen.
Edrychaf ymlaen at glywed oddi wrthych.
Yn gywir,

*Newyddion Medi i'w dderbyn erbyn 30 Awst.*
*Dyddiad cyhoeddi 18 Medi.*

**Llais Ogwan**

## Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Eleri Pritchard, 14 Dolheyg ar dderbyn gradd yn y Dosbarth Cyntaf mewn Gwyddoniaeth Fforensig a Seicoleg gan Brifysgol Wrecsam. Rydym i gyd yn falch iawn ohonot, Eleri, ac yn dymuno pob bendith a llwyddiant iti i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau i Mitchel Jones, 70 Bro Emrys, sy'n mynd o nerth i nerth ym myd paffio. Llwyddodd i ennill y Fedal Arian tra'n paffio dros Gymru ym Mhencampwriaeth Prydain, a gynhaliwyd y mis diwethaf yng Nghaerdydd. Erbyn hyn, mae Mitchel wedi ennill Pencampwriaeth Cymru bedair gwaith; camp fawr yn wir.

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Alice Hughes, 5 Cae Gwigin a ddathlodd ei phenblwydd yn ddeugain oed yn ystod mis Mehefin. Bu Jason a hithau'n treulio ychydig o ddyddiau yn Rhufain. Iechyd da a phob bendith iti, Alice.

### Cyrchu at y nôd

Mae Caleb Roberts, 6 Bro Emrys, newydd gwblhau cyfnod o gerdded a gwersyllu ar y mynyddoedd yn ystod tywydd poetha'r flwyddyn. Mae Medal Efydd Cynllun Dug Caeredin ganddo'n barod a bellach, mae o'n gweithio'n galed tuag at ei Fedal Arian. Mae hyn yn golygu gwneud amrywiaeth o waith gwirfoddol; dangos sgiliau arbennig a wynebu nifer o weithgareddau heriol iawn. Dymunwn yn dda iti, Caleb. Ymlaen â chdi wedyn i gyrraedd y safon uchaf; y Fedal Aur.

### Dechrau'r daith

Mae'n dda gennym glywed bod Romeo, mab bach Becky, 28 Cae Gwigin, gartref erbyn hyn ac yn dod yn ei flaen yn dda.

### Brysiwch wella

Mae'r ddau 'Golffiwr o fri' sef, Wayne a Chunk 32 a 34 Cae Gwigin yn methu cymryd mantais o'r tywydd braf ar hyn o bryd. Mae Wayne yn gwella'n araf ar ôl triniaeth yn yr ysbyty, a Chunk yn dioddef yn enbyd efo'i gefn. Brysiwch wella, hogia, ichi gael mwynhau gweddill yr Haf.

Anfonwn ddymuniadau gorau i Keith dros ffordd, sef Keith Jones,13 Dolhelyg, sydd wedi dod adref o Ysbyty Glan Clwyd. Mae o'n cael trafferth mawr i symud o gwmpas ar ôl y driniaeth ddiweddaraf, ac yn gorfod treulio llawer o'i amser yn y tŷ. Brysia wella, Keith. Mae Sandra a'r teulu'n falch iawn o'th gael adref.

Mae Keith yn dymuno diolch i'w deulu a ffrindiau oll am eu cymorth, eu caredigrwydd a'u dymuniadau da yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty, a wedi iddo ddod adref.

Cafodd Jean Hughes, 5 Bro Emrys, godwm cas wrth weithio yn y ardd. Crafodd ei phenelin yn wal y tŷ a thorri garddwrn ei braich dde. Mae colli balans mor hawdd, 'tydi, yn enwedig gyda thraul y blynyddoedd. Brysia wella Jean; mae methu defnyddio dy law dde yn gloffrwm mawr iti.

Dymuniadau gorau i bawb yn ardal Talybont sydd ddim yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd. Hefyd, i bawb sy'n teimlo'n unig neu'n drist. Cofiwch fod gynnoch chi ffrindiau a chymdogion wrth law bob amser.

## Capel Bethlehem

*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*
Gorffennaf 20: Parchg. Dafydd Job.
Gorffennaf 27: Oedfa i'w threfnu.

AWST – Dim oedfaon.

Medi 7: Parchg. R. O. Jones.
Medi 14: Oedfa i'w threfnu.
Medi 21: Parchg. Trefor, Lewis.

Croeso cynnes i bawb.

# Gŵyl Cymru – Bethesda'n dathlu

Roedd Bethesda yn rhan ganolog o ddathliadau cyhoeddi carfan pêl-droed merched Cymru ar gyfer Pencampwriaethau Ewro 2025 yn ddiweddar.

Ar ôl taith i gopa'r Wyddfa ar gyfer cyhoeddi enwau'r chwaraewyr, trodd y sylw at Ŵyl Cymru draw yn Neuadd Ogwen, gan ddathlu ymddangosiad cyntaf Cymru mewn pencampwriaeth yng ngêm y merched.

I ddechrau'r cyfan, cafwyd sesiwn holi ac ateb gyda rheolwr Cymru, Rhian Wilkinson draw ar y llwyfan yn Neuadd Ogwen, gyda'r gyflwynydd Nicky John yn holi'r cwestiynau.

Braf iawn oedd gweld cymaint o blant a theuluoedd wedi mynd draw i glywed a chyfarfod Rhian cyn iddi hi a'r garfan deithio draw i'r Swistir ar gyfer y gemau.

Roedd nifer o'r to iau yn dal i fwynhau wrth i Adwaith gamu ar y llwyfan. Cafwyd noson wych gan y triawd o Gaerfyrddin, a oedd yn perfformio 'Aros am y Chwiban' yn fyw am y tro cyntaf, sef cân arbennig a gyfansoddwyd ganddynt i ddathlu ymgyrch tîm Cymru.


Rhian Wilkisnon


Adwaith ar lwyfan Neuadd Ogwen


SIÂN GWENLLIAN
AELOD O'R SENEDD DROS ARFON
CYSYLLTWCH:
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672 076
70 Stryd Fawr, Bangor
Senedd Cymru
Welsh Parliament

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

# Bethesda

**Mary Jones**
maryeds@hotmail.co.uk (07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

**Cofio Enid**
Bu farw Enid Jones (Hughes gynt), gwraig ffyddlon Allan Wynne a mam gariadus Prion ac Ifer yn ei chartref, Cwrt Glyn Garth, Porthaethwy nos Sul 18 Mai, yn 84 oed. Roedd yn ferch i'r diweddar Janet a Bob Hughes, Cilfodan. Wedi addysg yn ysgolion Y Gerlan a Dyffryn Ogwen a Phrifysgol Abertawe, bu'n byw yng Nghaerdydd (sawl tro), Gwesty Plas Maenan ger Llanrwst, a Machynlleth, cyn symud i Ynys Môn chwe blynedd yn ôl. Yn unol â'i dymuniad ni chynhaliwyd cynhebrwng cyhoeddus. Trefnwyd dau de prynhawn i'r teulu a ffrindiau gael cyfle i rannu atgofion am Enid yng Nghlwb Rygbi Bethesda a Gwesty Glan yr Afon, Pennal ger Machynlleth. Gwasgarwyd ei llwch ger Pont Ceunant, Ty'n y Maes, yn agos i'w gwreiddiau. Hoffai'r teulu ddiolch am bob neges, cymorth a mynegiant o gydymdeimlad mewn cyfnod mor drist ac anodd.

**Pen-blwydd**
Pen-blwydd hapus iawn i Cian Rhys, Garneddwen, ar achlysur hapus o ddathlu dy ddeunaw ar Orffennaf 4ydd. Pob dymuniad da i ti hefyd yn dy swydd newydd yn Abergele wedi cyfnod yng Ngholeg Glynllifon.

**Ysbyty**
Cofion cynnes at bawb sy'n sâl gartref neu yn yr ysbyty.
Mrs Shirley Pritchard, Pant Glas

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â holl deulu Carwyn Huws, 20 oed a gollodd ei fywyd ar Fai 10fed yn dilyn damwain. Rydym yn meddwl am ei fam a'i dad, Georgina a Hefin, a'i frawd Arlun.
Anfonwn ein cydymdeimlad at Sioned Llewelyn, Pant Glas yn ei phrofedigaeth fawr o golli ei hannwyl fam Mrs Gwyneth Llewelyn Jones yn 91 oed. Bu ei hangladd yng nghapel Seilo, Caernarfon, dydd Llun, Mehefin 16eg.
Cydymdeimlwn yn fawr iawn â theulu Annette Bryn Parri, Deiniolen, a fu farw yn sydyn ar Fai 27ain yn 62 oed. Cofion at ei phlant Heledd, Ynyr a Bedwyr a'i mham Mrs Hannah Roberts, Dinorwig.

Ar Fai 12fed yn Ysbyty Gwynedd bu farw Linda Melancthon Peterkin o Abercaseg yn 74 oed, mam ofalus Anna a'r diweddar Nigel, nain i Lois, Liam ac Ella, chwaer hynaf Carol, Philip, Michael, Carys Wyn, Gareth a'r diweddar Elwyn, chwaer yn nghyfraith a modryb annwyl. Bu'r angladd ddydd Gwener, Mehefin 20fed gyda gwasanaeth yn Eglwys Crist Glanogwen ac amlosgfa Bangor. Y Parchg Sara Roberts oedd yn gwasanaethu gyda Mrs Christine Edwards wrth yr organ. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd fel teulu.

Ar Fehefin 8fed bu farw Iris Elizabeth Jolley o Glanogwen, priod annwyl Peter a mam hoffus Sian a Nia a nain annwyl i Goronwy, Liam, Mark, Gwawr, Niall, Daniel a Charlotte. Bu'r angladd yn hollol breifat ond bydd dathliad o fywyd Iris yn y Clwb Rygbi, dydd Sadwrn, Gorffennaf 5ed. Cydymdeimlwn â chi i gyd fel teulu.

Yn sydyn yn ei gartref yn Glaffrydlas bu farw Mr John Williams (Jackie typewriters) yn 94 oed. Priod annwyl Mrs Eirwen Williams, tad a thad yng nghyfraith i Nerys a David, Brian a Tracey. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Bangor, ddydd Gwener, Gorffennaf 18fed. Cydymdeimlwn â chi i gyd fel teulu.

**Clwb-y-dyffryn**
Daeth y tymor i ben dydd Mawrth, Mehefin 24ain gyda gwibdaith. Yn gyntaf arhoswyd ym Metws y Coed am baned mewn caffi ac ymlaen wedyn i'r Bala, ble roedd cinio wedi ei drefnu, cyn gorffen efo ymweliad â Phorthmadog. Roedd pawb wedi mwynhau y diwrnod. Bydd y clwb yn ail ddechrau, dydd Mawrth, Medi 9fed am 2:00 y.p. gan gyfarfod yng Ngorffwysfan.

**Clwb Gorffwysfan**
Ar ddydd Mercher, Mehefin 25ain aeth yr aelodau a chyfeillion ar wibdaith i Gerddi Trentham, sef gerddi hyfryd neb fod ymhell o Stoke-on-Trent. Cafwyd diwrnod ardderchog gyda phawb wedi mwynhau eu hunain. Bydd ein cyfarfod blynyddol wedi bod cyn i'r rhifyn hwn allan felly gobeithio y bydd pawb yn cael haf hapus.

**Cydymdeimlad**
Bu farw Dafydd Morris, Garnedd Uchaf ar 15 Mehefin. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

**Colli Menai**
Bore Sadwrn yr 28ain o Fehefin, yn dawel yng nghartref gofal Plas Ogwen, bu farw Menai Jones yn 92 mlwydd oed. Yn fam i Arfon, Glyn, Selwyn a Marian ac yn fam-yng-nghyfraith, nain, hen nain, chwaer, modryb a ffrind hoffus i bawb, mae'n gadael gofod mawr ar ei hôl. Yn enedigol o Fangor, bu'n byw yn Nhrawsfynydd am nifer o flynyddoedd cyn ymfudo'n ôl i'r ardal lle byddai'n wyneb cyfarwydd i drigolion Tregarth a'r cyffiniau, yn mynd fel y gwynt o un lle i'r llall. Hoffai'r teulu ddiolch o galon i staff Plas Ogwen am eu gofal o mam tra bu yno ac i bawb am eu cydymdeimlad.

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael, yn gwella ar ôl llawdriniaeth, neu'n gaeth i'w cartref, gan ddymuno gwellhad a chysur i bawb sy'n dioddef mewn unrhyw fodd. Cofiwn yn arbennig am y rhai sy'n galaru ar ôl colli anwyliaid.

**Amlenni Rhodd**
Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson trwy'r amlenni wythnosol – mae'r cyfraniadau hyn yn holl bwysig tuag at gostau'r eglwys. Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd, gallwn alw amdanynt.

Mae blwyddyn yr amlenni yn dod i ben ar ddiwedd mis Mehefin. Os oes rhywun yn awyddus i gyfrannu'n wythnosol i'r eglwys, rhowch wybod i Lester, ein Trysorydd, ar lbath@phonecoop.coop

**Gwasanaethau Eglwys Crist**
Pob bore Sul am 11.00 y bore – Cymun Bendigaid.
Pob Bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn. Croeso cynnes i bawb i'r holl wasanaethau.

**Diolch**
I bawb a gefnogodd ein stondinau yn y Carnifal a'r Sioe Amaethyddol – gwerthfawrogir pob cyfraniad a help yn fawr.

**Manylion cyswllt**
Gellir cysylltu a'r Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd ein ficer ar 01248 361521 am unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys,
Neu'r Parchedig Sara Roberts ein offeiriad cynorthwyol ar 07967652981.

**Dyfodol Yr Eglwys**
Mae cronfa'r Apêl yn dal i fynd, er mwyn cadw'r eglwys ar agor er defnydd y gymuned. Os hoffech gyfrannu, mae cronfa Gofundme yn dal ar agor, lle mae'n bosib cyfrannu'n uniongyrchol. Diolch o galon.

## Yr Eglwys Unedig

**Oedfaon**
Diolch yn fawr iawn i'r canlynol am gynnal y gwasanaethau yn ystod mis Mehefin – 'roedd eu cyfraniadau yn werthfawr dros ben: Y Parchedig Eric Jones; ein Gweinidog (Y Parchedig Nerys Griffiths); Mrs Eirlys Williams; a'r Parchedig Anna Jane Evans.

**Y Gymdeithas**
I Drawsfynydd aeth gwibdaith aelodau a ffrindiau'r Gymdeithas eleni, i ymweld â 'r Ysgwrn', cartref Bardd y Gadair Ddu.

Roedd rhai ohonom heb weld y ffermdy ar ei newydd wedd, ac yn gobeithio bod y penseiri a'r crefftwyr wedi llwyddo i wneud eu gwaith, heb ddifetha'r awyrgylch unigryw a fodolai yn ystod oes Gerald, nai Hedd Wyn.

'Doedd gennym ddim achos i bryderu. Cawsom ein tywys drwy'r tŷ, a thrwy hanes, gan Alwen. Wel, dyna i chi Dywysydd benigamp! 'Roedd hanes y teulu ym mlynyddoedd y Rhyfel mawr, eu ffordd o fyw, a hanes yr ardal o gwmpas 'Yr Ysgwrn', ar flaenau ei bysedd, ac yr oedd ei Chymraeg graenus yn fêl i'r glust. Llawn mor ddiddorol oedd gwrando arni'n egluro sut yr aed ati i adfer addurniadau'r tŷ, tra'n cadw mor agos â phosibl at y gwreiddiol.

Yr oedd y grŵp arall hefyd yn canmol Elsa, eu Tywysydd hwythau.

Cawsom wylio ffilm o'r cyfan tra'n mwynhau panad a chacen yn y caffi, a rhyfeddu at yr Arddangosfa gelfydd yn yr adeilad gerllaw.

Ymlaen â ni wedyn i dreulio'r p'nawn yn nhref fechan y Bermo. Yr oedd yr haul yn chwilboeth erbyn hynny, felly aethom i chwilio am damaid i fwyta, ac ychydig o gysgod yn y siopau bach amrywiol, cyn cychwyn am adref.

Roedd y daith hyd y glannau mor hardd; y bws yn gyfforddus a'n gyrrwr yn tu hwnt o glên a chymwynasgar; hogyn yr ail-filltir go iawn.

Er gwaethaf tân yn Nhwnnel Conwy a achosodd oedi anhygoel i lawer iawn o deithwyr, cyraeddasom Bethesda'n weddol ddi-drafferth. Diolch i bob un fu'n gyfrifol am wneud y trefniadau ym mha bynnag ffordd. Os byw ac iach, cawn wibdaith arall yr Haf nesa'. Ble gawn ni fynd, deudwch?

*(Barbara Jones [Ysgrifennydd])*

**Bore Coffi**
Cynhelir Bore Coffi yn Festri'r Capel rhwng 10 a hanner dydd fore Sadwrn, Gorffennaf 19 – yr elw at y Capel. Gwerthfawrogir unrhyw gyfraniad at yr achos, a dowch yn llu!

**Marwolaeth**
Trist yw cofnodi ymadawiad Dafydd Morris, Garnedd Uchaf, wedi cyfnod hir o anhwylder. Er nad oedd Dafydd yn aelod yn Jerusalem, bu'n hynod o gefnogol i wahanol weithgareddau'r Capel, lle bu ei wraig, Eurwen, yn flaenor diwyd am flynyddoedd. Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf at y teulu oll yn eu hiraeth.

**Cofion**
'Rydym yn meddwl am yr rhai hynny sydd yn rhy fregus i fynychu'r oedfaon, ac yn dymuno pob bendith iddynt dros dymor yr haf.


**Cyhoeddiadau'r Sul**
Gorffennaf 20: Y Gweinidog (10)
Gorffennaf 27: Y Parchedig Cledwyn Williams (5)
**NI FYDD OEDFAON YN YSTOD MIS AWST**
Medi 7: Undebol yng Nghaeathro (2)
Medi 14: Y Parchedig Anna Jane Evans (5)
Medi 21: Y Gweinidog (10) a Mr Donald Pritchard (5)
Medi 28: Mrs Eirlys Williams (10)



Neville yn mwynhau hufen iâ yn y Bermo (Heulwen Roberts)



Gwrando'n astud yn yr Ysgwrn



Dennis wedi ymgolli'n yr hanes (Emyr Roberts)


DAFYDD CADWALADR
CYNHYRCHION COEDLANNOL
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

Londis
BETHESDA
01248 605566
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig, Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531 | 01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

# Cyngor Cymuned Bethesda

***Bwthyn Ogwen***

Roedd yn bleser croesawu Trystan Edwards, Rheolwr Cyffredinol Eryri a Llŷn (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), i gyfarfod diweddar o'r Cyngor Cymuned, lle bu'n cyflwyno cynlluniau cyffrous iawn i ailwampio Bwthyn Ogwen. Mae'r bwriad yn glir: gwneud y safle'n fwy hygyrch, mwy defnyddiol, a lle mwy pleserus i ymweld a'r Dyffryn ac aros ynddo.

Ar hyn o bryd, daw disgyblion ysgol o bob cwr o'r DU, gan gynnwys plant lleol, i dreulio wythnos yn archwilio tirwedd hardd a ddychmygus Dyffryn Ogwen. Dangoswyd brasluniau cychwynnol y prosiect i'r Cyngor. Nid oes dyddiad pendant eto ar gyfer dechrau'r gwaith. Mynegodd y Cyngor ei gefnogaeth i'r cynlluniau a byddwn yn parhau i fonitro'r datblygiadau wrth iddynt symud yn eu blaen. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi pwysleisio ei bwriad i gadw Cynghorau Cymuned lleol yn y cylch o'r cychwyn cyntaf, rhywbeth rydym yn ei groesawu'n fawr.

***Maes Parcio, Gerlan***

Mae'r Cyngor Cymuned yn parhau i weithio'n galed i geisio datrys y materion cyfreithiol sy'n oedi datblygiad y maes parcio yn Gerlan ar hyn o bryd.

***Parcio Stryd Fawr***

Rydym yn ymwybodol bod llawer o bryderon wedi codi'n ddiweddar ynglŷn â pharcio ar y Stryd Fawr, a phobl nad ydynt yn parchu'r llinellau melyn sydd yno i ddiogelu llif traffig a pheryglon.

Gyda hynny mewn golwg, rydym yn falch o gyhoeddi bod gwaith ail-baentio'r llinellau ffordd wedi'i gadarnhau. Mae'r cwmni L&R, sy'n gyfrifol am y gwaith, wedi rhoi canol mis Gorffennaf fel dyddiad tebygol ar gyfer ymweld â Bethesda. Rydym wedi gofyn iddynt ail-baentio pob llinell drwy'r pentref, ac maent wedi cytuno.

Cafodd y mater o gynnig parcio am ddim i drigolion yng Nghae Star ei godi eto yn ddiweddar. Ar hyn o bryd, mae'r ffi'n £1.55 am awr gyda pharcio am ddim ar gael o 4:30 yh tan 10:00 y bore canlynol.

Cynigir syniad i ddefnyddio tocyn, tebyg i'r system parcio yn Ysbyty Gwynedd, sef bod awr neu ddwy am ddim, er mwyn gallu picio i'r stryd fawr. Bydd y syniadau hyn i gyd yn cael eu hailystyried yn fanwl.

Rydym yn deall bod problemau parcio yn Bethesda yn hynod o hen, ond mae'r Cyngor Cymuned yn ymrwymedig i wneud ei gorau i fynd â hyn y tu hwnt i statws presennol ac i wella'r sefyllfa i'r gymuned leol.

***Parc Chwarae Pantdreiniog***

Mae'r Cyngor Cymuned yn ymwybodol bod arwynebedd y parc chwarae diweddaraf yn achosi trafferthion ac yn mynd yn 'mwlchy' mewn mannau. Byddai'n wych pe gallem wella'r arwyneb, efallai drwy osod gwair newydd yn lle'r llawr presennol. Cynigodd y Cyngor wneud cais am grant *Tesco Stronger Starts*, gyda'r posibilrwydd o gyd-ariannu hyd at £1,500. Byddwn yn parhau i ymchwilio'r cyfle hwn a byddwn yn hysbysu'r gymuned o unrhyw ddatblygiadau.

***Chwyn a choed yn tyfu fewn i Ffordd Gerlan***

Mae pryderon yn parhau am y coed sydd heb eu tocio ar hyd y ffordd i Gerlan, yn enwedig ar gornel ger yr hen iard lo. Mae nifer o drigolion yn cwyno bod canghennau'r coed yn hongian dros y ffordd, gan greu rhwystr i geir ac yn achosi i rai gerdded neu yrru i ochor arall y ffordd i osgoi'r canghennau. Mae hyn yn peri risg o wrthdaro gyda cherbydau sy'n dod lawr yr ochr arall. Rydym wedi gofyn i'r gwaith docio gael ei gwblhau cyn gynted â phosib i sicrhau diogelwch pawb ac i atal y broblem rhag gwaethygu.

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

## Clwb Coffi Talybont

**FESTRI BETHLEHEM**

Boreau Llun, 10.30 – 12.00

**Medi 15 a 29**

Croeso cynnes i bawb

## CANOLFAN CEFNFAES

## Gyrfa Chwist

Gorff. 22 a 29

Medi 9

am 6.45yh.

Croeso i bawb

## Sefydliad Y Merched Carneddi

**Ar Medi y 4ydd, yn Festri Capel Jerusalem am 7 o'r gloch, bydd cynrychiolaeth o Hosbis yn y Cartref yn dod atom i roi sgwrs,ac estynwn groeso cynnes i bawb. Y gost fydd £2, fydd yn cynnwys paned a raffl,a bydd holl elw y noson yn mynd at yr Hosbis. Edrychwn ymlaen i groesawu pawb.**

## ARDDANGOSFA ARLUNIO

Gan y Grŵp Arlunio

Canolfan Glasinfryn
Awst 21, 22, 23
11yb - 4yp

Mynediad am ddim




1969

**M.HUGHES A'I FAB**

**CONTRACTWYR TOI**

**Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda ☎ 600633**
**☎ (symudol) 07702 583765**
**mhughesandson@hotmail.com**

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED

**A.G.L.** Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

**Andrew G. Lomozik B.A.**
**Ffôn:** 01248 602117
**Symudol:** 07835487909

# Partneriaeth Ogwen

## *Gŵyl Gwenllian 2025*

Cafwyd penwythnos wych o ddathlu merched creadigol i goffau'r Dywysoges Gwenllïan o 6 tan 8 Mehefin.

Diolch i bawb ddaeth draw i'n gweld ni yn stondin Partneriaeth Ogwen yn Sioe Dyffryn Ogwen. Roedd cyfle i glywed am brosiectau amrywiol Partneriaeth Ogwen, gan gynnwys datblygiad cyffrous canolfan dreftadaeth Yr Hen Bost.

Er y tywydd anffafriol ar ddechrau'r bore, mi altrodd y tywydd a braf oedd croesawu nifer o blant fu draw ar gyfer y sesiwn creu coronau blodau. Poblogaidd iawn oedd y beic efo'r hen a'r ifanc, lle'r oedd angen pedlo ar gyfer creu cerddoriaeth.

Ar ddydd Sul, cynhaliodd y grŵp ysgrifennu creadigol lleol Diosg weithdy ysgrifennu creadigol gyda Siân Northey a Ness Owen yn y bore. Yn y prynhawn, siaradodd Siân a Ness am eu profiadau o olygu cyfres cerddi, Afonydd, a rhoddwyd cyfle i'r gynulleidfa rannu eu gwaith.

Daethpwyd â'r ŵyl i ben gyda bath gong gan Becca Hughes o Llonyddwch. Diolch i bawb fu'n cefnogi'r ŵyl.



Sian Esmor fu'n holi Ness Owen a Sian Northey am eu cyfrol 'Afonydd'





Sesiwn creu coronau blodau o hen blastig



Ifan a Celt yn mwynhau'r gweithgareddau ym mhabell Partneriaeth Ogwen.

## *Gŵyl Gwneud*

Ar ddydd Mercher, 30 Gorffennaf mi fydd GwyrddNi, Partneriaeth Ogwen yn cynnal Gŵyl Gwneud yng Nghanolfan Tregarth o 10.30am tan 4pm.

Dyma gyfle i'r teulu oll i gael eu hysbrydoli am weithgareddau i wneud dros yr haf, o feicio i arddio i drwsio i ddod i adnabod natur.

Mae GwyrddNi yn cynnal gweithgareddau drwy'r flwyddyn i gefnogi trigolion Dyffryn Ogwen i weithredu dros yr amgylchedd.

Bydd yr ŵyl yn rhoi blas bach ar ychydig o'r pethau arbennig sy'n digwydd ar hyd a lled y dyffryn a sut y gallwch chi gymryd rhan.

Bydd y digwyddiad am ddim - croeso cynnes i bawb.



# Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

Mae aelodau Plaid Cymru Dyffryn Ogwen wedi mynychu cyfarfodydd hysting a phleidleisio i ddewis rhestr o ymgeiswyr ar gyfer Etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026. Defnyddir system newydd, fwy cyfrannol, i ethol ein cynrychiolwyr y flwyddyn nesaf, gyda chwech aelod i gynrychioli talaith Bangor Conwy Môn. Llongyfarchiadau mawr i Rhun ap Iorwerth, arweinydd Plaid Cymru ac Aelod o'r Senedd, sydd wedi dod ar frig y bleidlais i arwain y tîm yn yr etholaeth newydd hon.

Cynhaliwyd tri chyfarfod hysting, gan gynnwys un ar-lein, pan gawsom gyfle i gyfarfod â'r ymgeiswyr, holi cwestiynau a darganfod mwy am eu gweledigaeth.

Mae talaith Bangor Conwy Môn yn cwmpasu ardal helaeth, o Gaergybi i Landudno a chyn belled ag Efenechtyd ger Rhuthun.

Yn ymuno â Rhun ar restr ymgeiswyr Plaid Cymru, y mae Mair Rowlands, cyn Ddirprwy Arweinydd Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Elfed Huw Williams o Sir Ddinbych, a'r Cynghorydd Dyfed Wyn Jones o Ynys Môn. Maent yn ffurfio tîm profiadol a brwdfrydig, yn barod i ymgyrchu dros Gymru decach.

Edrychwn ymlaen at gefnogi'r tîm cryf hwn dros y flwyddyn nesaf wrth iddynt ymgysylltu â chymunedau ledled yr etholaeth a rhannu gweledigaeth Plaid Cymru ar gyfer y dyfodol.

# Rhiwlas

**Annes Glynn,** Bwthyn Cefn Braich,
Rhiwlas LL57 4HB
annes.glynn@gmail.com
(01248) 351015

## Capel Shiloh Newydd

**Gwasanaethau'r Sul**
Fel sy'n arferol dros wyliau'r haf ni fydd gwasanaethau'n cael eu cynnal ym mis Awst, ond fe fyddant yn ailddechrau ym mis Medi. Dyma fanylion gwasanaethau mis Medi a gynhelir yn y Neuadd am 10 o'r gloch y bore:
**Medi 7**: Gwyndaf Jones
**Medi 14**: Dr. Ian Morris
**Medi 21**: Dr. Huw Tegid Roberts

Croeso cynnes i bawb.



## Tafod Arian

Diolch i Heulwen Bright am anfon y llun yma a dynnodd hi o Lleuwen yn perfformio ei sioe 'Tafod Arian' yn Pontio ddechrau Mehefin. Mae'r sioe yn ddatblygiad o'r daith 'Emynau Coll y Werin' y bu Lleuwen yn ei chynnal o gwmpas gwahanol gapeli ac eglwysi ledled Cymru dros gyfnod o rai misoedd y llynedd. Yn ymuno â Lleuwen ar y daith hon mae Gethin Ellis a Nolwenn Korbell, y gantores o Lydaw ac mae hefyd yn cynnwys ffilm wreiddiol gan Aled Victor. Gobeithio y gwelwn ni di i yn ôl yn yr ardal eto cyn bo hir iawn, Lleuwen.

**Gwên heulog!**
Pob dymuniad da i chi dros wyliau'r haf lle bynnag y byddwch chi'n ei dreulio a beth bynnag y byddwch chi'n ei wneud. Gobeithio y cawn ni sbel o ddyddiau mor heulog â gwên Gareth yn y llun yma. Bu'n mwynhau'r sesiwn Pot a Phaent a dyma oedd y canlyniad.



NEUADD BENTREF RHIWLAS

## Darlith Gyhoeddus

'Tu ôl i'r llen Amgueddfa Lechi Cymru: Dogfennu, pacio a symud ein casgliad'

Ymunwch gyda Cadi Iolen, Curadur Amgueddfa Lechi Cymru, i ddarganfod mwy am y gwaith o adleoli casgliad yr amgueddfa cyn i'r gwaith ail-ddatblygu gychwyn.

**02/10/2025**
**7.00 yh**

**Clwb Rhiwen**
Daethom ynghyd brynhawn Mercher, Mehefin 18, yn y neuadd bentref. Ein gwraig wadd oedd Parch. Sara Roberts, Caplan Bro, Bro Ogwen. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn am ei gwaith ynghlwm â'r Eglwys Wyllt yn ardal Bethesda, sut eginodd yr Eglwys Wyllt yn y gymuned ers diwedd yr amser clo i sut y mae wedi datblygu yn ein cymuned heddiw.

## Picnic yn y Parc

Cofiwch am ddigwyddiad 'Picnic yn y Parc' a'r gweithgareddau sydd wedi eu trefnu gan Gyfeillion Rhiwlas yn y parc chwarae rhwng 11 a 2 ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 19.




Lesley oedd yn cynorthwyo Gareth i baratoi'r banad. Ni fydd cyfarfod yn y Neuadd ym mis Gorffennaf gan y bydd yr aelodau yn ymweld â Caffi Cartref yn Bontnewydd am de hufen i ddiweddu'r tymor. Bydd y Clwb yn ail ymgynnull yn y Neuadd ar Fedi 17.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymuno â Chlwb Rhiwen rydym yn cyfarfod ar y trydydd prynhawn Mercher o'r mis am 2yp yn Neuadd Bentref Rhiwlas. Croeso cynnes iawn i chi ymuno â ni.

**Merched y Wawr**
I gloi'r tymor, teithiodd yr aelodau i fwyty Pant Du, Penygroes ar Fehefin 11 lle mwynhaodd pawb sgwrs dros bryd o fwyd blasus. Bydd gweithgareddau'r gangen yn ailddechrau ym mis Medi ar brynhawn Mawrth, Medi 9, am 1.30 o'r gloch. Croeso mawr i aelodau – hen a newydd - ymuno efo ni.

Fydd dim rhifyn o'r 'Llais' ym mis Awst ond bydd y rhifyn nesaf yn ymddangos ganol Medi. Deunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw i law erbyn dydd Sadwrn, Awst 30 os gwelwch yn dda. Diolch i chi gyd am eich cefnogaeth.

# YSGOLION ABERCASEG A PHEN-Y-BRYN

Mae ystod gyfoethog o brofiadau dysgu wedi ennill canmoliaeth uchel gan Estyn, gan gryfhau profiadau'r disgyblion tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Dyma dim ond ychydig ohonynt y mis yma...

### Siarter Iaith – Medal Aur

Rydym yn falch iawn o rannu'r newyddion gwych bod Ysgol Penybryn wedi ennill y Fedal Aur arbennig o dan y Siarter Iaith Gymraeg – cydnabyddiaeth deilwng o ymdrechion diwyd, brwdfrydedd ac ymrwymiad y staff a'r disgyblion i hyrwyddo'r Gymraeg a'n treftadaeth ddiwylliannol.
Mae ethos Cymraeg y ddwy ysgol yn gadarn, ac mae dwyieithrwydd yn cael ei weld fel sgil hanfodol ar gyfer y dyfodol. Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o'n cymuned yn Nyffryn Ogwen, ac rydym yn falch o chwarae rhan weithredol yn ei diogelu a'i datblygu.

### Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd – Port Talbot

Cafodd Ysgol Penybryn lwyddiant mawr drwy ddod yn drydydd drwy Gymru gyfan yn y gystadleuaeth "Perfformio Golygfa". Roedd yn achlysur balch iawn a gosododd ein hysgol ar y map ar lefel genedlaethol unwaith eto.

### Diolch

Dymuniadau gorau i Mr Gethin Thomas a fydd yn gadael ei rôl fel Pennaeth ar ôl mwy na pum mlynedd yn y rôl. Fe gychwynnodd fel Pennaeth nôl yng nghanol y cyfnod clo - ac mae wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ar draws y ddwy safle yn ei gyfnod ers hynny. Diolch am bopeth a phob llwyddiant yn y swydd newydd.

### Ffeiriau Busnes

Trefnwyd Ffeiriau Busnes gan y disgyblion lle datblygwyd sgiliau entrepreneuriaid, mathemategol, ieithyddol a chymdeithasol. Cafodd y rhain eu canmol gan arolygwyr Estyn fel enghraifft o ddysgu cyfoethog, berthnasol ac ymarferol.



### Garddio – Ysgol Abercaseg

Mae sesiynau garddio wythnosol wedi dod yn rhan annatod o brofiad y disgyblion yn Abercaseg, gan gynnig cyfleoedd i ddysgu am fyd natur, cynaladwyedd a sgiliau ymarferol. Mae'r plant wedi tyfu llysiau, blodau a pherlysiau, ac wedi dangos balchder yn eu cyfraniad at yr ardal awyr agored.

### Gwersi Nofio – Blwyddyn 2

Cafodd disgyblion Blwyddyn 2 wersi nofio wythnosol drwy gydol tymor yr haf. Mae'r sesiynau hyn wedi cyfrannu at hyder a diogelwch yn y dŵr, ac mae nifer o blant wedi cyflawni cerrig milltir bersonol.

### Chwaraeon

Mae'r tîm criced Blwyddyn 3/4 wedi ennill cystadleuaeth Eryri'r Urdd, ac wedi teithio i Stadiwm Swalec, Gerddi Soffia yng Nghaerdydd i gystadlu yn y rowndiau terfynol cenedlaethol. Diolch o galon i Mabon Scaffolding ac Natasha's, Barbwr Ogwen am noddi'r cit – ac i'r rhieni gwych am eu cefnogaeth ac am fynd â'r criw i'r brifddinas!
Roedd timau rygbi merched hefyd yn llwyddiannus drwy gyrraedd y rownd derfynol yng nghlwb rygbi Caernarfon – dim ond yn methu o bwynt yn y ffeinal.






### Taith Breswyl i Lan-llyn - Blwyddyn 5

Bu disgyblion Blwyddyn 5 yn mwynhau taith gofiadwy i Ganolfan yr Urdd, Glan-llyn. Cafwyd cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau anturus gan gynnwys canŵio, padl fyrddio, dringo a gweithio fel tîm yn yr awyr agored. Roedd y profiad yn hyrwyddo hyder, cydweithio ac ymdeimlad o annibyniaeth.


# C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Timber & Builders' Merchants

Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel - Llandudno

C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.




Bethesda 01248 600 045

bethesda@cljonesltd.co.uk

# Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths** mairpenybryn@gmail.com 01248 352966

**Arddangosfa Arlunio**

Ar 21 – 23 Awst, bydd Grŵp Arlunio Glasinfryn yn cynnal eu harddangosfa flynyddol yng Nghanolfan Glasinfryn rhwng 11yb a 3yp, a bydd y mynediad yn rhad ac am ddim. Ar hyn o bryd naw aelod sydd yn y Grŵp ac mae croeso mawr i aelodau newydd - nid oes yr un ohonom yn honni bod yn Michaelangelo felly na phetruser unrhyw un sydd awydd ymuno! Yn union fel côr, nid oes rhaid bod fel Pavarotti cyn ymuno! Mae croeso i rai sydd yn awyddus cychwyn neu arlunwyr profiadol. Daw ein tiwtor Chris Hull atom unwaith bob mis - fo sydd yn dal efo ni ers pan ffurfiwyd y Grŵp yn 1996.

Gellir defnyddio unrhyw gyfrwng, pastel, paent oel, dyfrliw neu unrhyw fodd i wneud llun. 'Rydym yn griw cyfeillgar, hollol ddwyieithog yn gallu rhoi byd yn ei le yn ogystal a mwynhau arlunio ar bob lefel. Dowch draw unrhyw fore Gwener rhwng 10 a 12.30yb neu ffoniwch Gwyn Burgess ar 07766499555 neu fi, James Griffiths ar 01248 352966.

**Cylch Glasinfryn**

Daeth nifer dda ynghyd i gyfarfod y Cylch ar brynhawn Mercher, 11 Mehefin. Croesawyd Angharad Griffiths o Fethesda atom gan y cadeirydd Mair Griffiths i sôn am "Fwyta'n Iach". Cawsom ei hanes fel ag yr oedd ers yn ifanc wedi teimlo yn rhy drwm ac ei bod wedi byw ar bob math o ddiet i golli pwysau. Yn y diwedd fe sylweddolodd nad oedd y math yma o fwyta yn llwyddiannus ac fe aeth ati i astudio Maetheg, a dyma pryd y newidiodd ei bywyd a ffordd o fyw i fwyta'n iach.

Dangosodd sut mae diet gytbwys gyda phob math o fwydydd fel cnau, ffrwythau, amrywiaeth o lysiau a braster isel gyda bwydydd yn cynnwys protin yn rhoi deiet cydbwys. Pwysleisiodd hefyd at bwysigrwydd ymarferion aerobig fel dawnsio, nofio, ioga a cherdded yn helpu i gadw BMI iach. Ar ddiwedd y sgwrs cawsom brofi Torth Banana blasus iawn yr oedd Angharad wedi ei wneud. Diolchodd Barbara Owen i Angharad ar ran y Cylch am brynhawn difyr ac addysgiadol iawn.

Jocelyn a Carole oedd yn gyfrifol am y baned a chawsom ragor o gacennau blasus wedi eu darparu gan Carole. Pawb angen mynd am dro ar ôl mynd adref!

Byddwn yn mynd ar drip i Eglwys Sant Grwst, Llanrwst ar 9 Gorffennaf i gael hanes yr eglwys hynafol yma gan Bleddyn Hughes. Ni fydd cyfarfod ym mis Awst nes 10 Medi pryd bydd Lieneke van der Veen, o Bontrug yn dod atom i ddweud hanes ei bywyd yn yr Iseldiroedd a dangos lluniau o'i gardd yn ogystal a gwneud gosodiadau blodau. Mae Lieneke yn Drefnydd Blodau proffesiynol ac wedi ennill medal Aur yn Sioe RHS Chelsea. Mae hwn yn argoeli i fod yn brynhawn gwych, felly beth am ddod atom yn y Ganolfan am 2yp, cewch groeso cynnes iawn!

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â Carole Singleton, Yr Hen Efail, Caerhun, sydd wedi colli ei chwaer Eevril o Gaernarfon yn 66 oed ar 26 Mehefin wedi gwaeledd blin a hir. Cofiwn am y teulu i gyd yn eu profedigaeth.

**Bingo**

Er mai ychydig oedd y nifer ddaeth ynghyd, oherwydd amryw resymau cafwyd noson hwyliog iawn yn y Bingo Bach yn y Ganolfan ar 27 Mehefin pan gwnaed elw o £120 tuag at y Bâd Achub (RNLI). Diolch yn fawr iawn i bawb am bob cyfraniad tuag at y noson. Cewch hoe bach rwan dros yr haf nes y byddwn yn cynnal y Bingo nesaf ar nos Wener, 3 Hydref am 7yh a'r elw tuag at Hafan Dewi Sant, Ysbyty Gwynedd.

Diolch i Derfel Roberts y tri llun isod o'r Sioe



Mary ac Angharad yn mwynhau



Dau Gynghorydd yn cynghori Dei Fon



Gwyneth a'i helpar yn y Sioe

# Sioe Dyffryn Ogwen







Dr Ffrancon Morris, Beirniad, yn blasu rhywfaint o win cartref ym mhabell y cynnyrch

# Iaith Pesda

gan Mary Jones

## Pydru

Dyma i chi air diddorol sy'n cael ei glywed yn ein sgyrsiau'n aml. Mae sawl ystyr iddo fo.

Mae o'n medru golygu cleisio rhan o'r corff ar ôl iddo cael ei daro neu ei wasgu. Mae 'na gleisio tu mewn a chleisio tu allan i'r corff. Fel y gwyddoch chi, efo clais ar wyneb y corff, bydd croen y rhan fydd wedi cleisio yn mynd yn las, yn ddu-las neu'n ddu-las biws, ac yna'n troi'n felyn cyn diflannu - "Mae o wedi pydru ei droed yn y chwaral. Mae hi'n ddu-las biws."

Mae o hefyd yn medru golygu dirywio – "Mae'r darn pren 'ma wedi pydru. Mae o'n siwrwd."

Ystyr arall i 'pydru' ydy 'dyfalbarhau', 'dal ati'. Byddwn weithau'n ateb y cwestiwn "Sut wyt ti?" drwy ddweud "Dw i'n dal i bydru 'mlaen".

## Ambell Air ac Ymadrodd

**Claddu bwyd.** Bwyta ar wib ydy ystyr hwn; llowcio fel rhywun yn rhawio – "Fysa'n werth iti 'i weld o'n claddu'r bwyd!"
**Llenwi twll.** Dywediad arall am fwyta – "Mi gawson ni bryd bach ysgafn i lenwi twll."
**Gwitsiad.** Dyma ddwedwn ni'n aml am 'aros' a 'disgwyl' – "Fues i'n gwitsiad amdanyn nhw am oes."
**Sgut.** Bod yn 'sgut' am rywbeth ydy bod yn hoff iawn o'i wneud – "Mae hi'n sgut am wneud croesair."
**Gillwn/gwllwn.** Dyma ddwedwn ni am 'gollwng' – "Paid â gillwn yn rhaff 'na neu mi fydda i'n syrthio."
**Droinio.** Tynnu llun ar bapur neu gynfas ydy 'droinio' – arlunio efo pensal, creon, pastel, india inc neu siarcol. Daw o'r gair 'draw' yn Saesneg.
**Am fy nhrafferth.** Cael rhywbeth am wneud rhyw waith digon anodd – "O leia' ges i 'nhalu am fy nhraffarth."
**Dallt y dalltings.** Gwybod beth ydy'r drefn ydy hwn – gwybod sut mae pethau'n gweithio – "Well i ti ei drïo'i drwsio fo. Ti'n dallt y dalltings"; "Dw i'n newydd yn y lle 'ma. Ti'n dallt y dalltings."
**Swigan.** Fyddwn ni'n cael swigan ddŵr pan fyddwn ni'n llosgi ein croen, a swigan waed pan fydd ein croen yn cael pinsiad go hegar. Ers talwn, byddai sgwigan mochyn, sef y bledran, yn cael ei ddefnyddio fel pêl-droed.
**Dyrnu mynd.** Symud ar wib – "Ew, roedd y lori fawr 'na'n berig bywyd yn dyrnu mynd ar y lôn gul 'na."
**Segur-swydd.** Dyma'r enw ar swydd ysgafn yn gorfforol, o'i chymharu â gwaith chwarelwr, ffermwr a labrwr – "Nid y chwaral fydd ei le fo. Geith o segur-swydd ar ôl bod yn y coleg."
**Gwthio'r bensal.** Dyma ymadrodd sy'n debyg iawn ei ystyr i 'segur-swydd', sef disgrifiad o rywun mewn swydd oedd yn golygu clercio; yn gwneud llawer iawn o sgwennu.

**Cyrcwyd.** Dyma ddywedwn ni am cwrcwd, sef mynd a'r corff i lawr yn isel gan blygu'r coesau nes bod y penôl bron ar y llawr.



**Bob un wan jac.** "Cerwch oma'r munud yma, bob un wan jac ononch chi!" Rhoddir pwyslais ychwanegol bod y gorchymyn i bob un heb eithriad. Yn gynnar mewn hanes defnyddir Jack yn y Saesneg am berson neu ddyn cyffredin yn aml o'r dosbarth gweithiol. Yr 'wan' wrth gwrs ydy y rhif un.

**Staes.** 'Sgwn i faint ohonoch sydd wedi gwisgo neu wasgu eich hun i mewn i staes. Ydy nhw wedi mynd allan o ffasiwn bellach? Roeddent yn cael eu gwisgo i wasgu'r corff er mwyn gwneud i chi edrych yn deneuach nag oeddech mewn difrif. Daw'r gair o'r Saesneg *stays* ac fe'i gwisgwyd hwy dros dri chan mlynedd yn ôl, ond mae gen i gof o ferched yn dweud ers talwm "Fedra i ddim gwitsiad i fynd adra i gael tynnu'r staes ma."

**Lwlan.** Elwlen ydy'r gair cywir ac fe'i clywais yn ddiweddar gan fy ffrind. Doeddwn i ddim yn gyfarwydd efo fo, ac roedd hynny efallai am nad oeddynt ar fwydlen ein tŷ ni. Aren ydy lwlen ac mae fy ffrind yn sôn mai aren oen fyddai'n cael ei chynnig iddyn nhw.

**Hendia oma.** Ffordd o ddweud wrth rywun am fynd o'r ffordd "Dos o ffor'."

**Be haru ti?** Beth sy'n bod arnat ti?

**Troad y rhod.** Sef Alban Hefin, dydd canol haf, Mehefin 21ain, Gŵyl y Derwyddon ac addoli'r haul mewn cylchoedd cerrig. Os yn Nyffryn Ogwen siars i beidio nofio yn yr afon tan troad y rhod.

**Cofiwch gysylltu: Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN; ffôn 07443047642; maryeds@hotmail.co.uk**

# Ynni Ogwen yn dod a budd

Bydd darllenwyr Llais Ogwan yn cofio bod Ynni Ogwen yn dyrannu rhywfaint o'r elw o'r prosiect hydro ar Afon Ogwen i greu buddion cymunedol trwy osod paneli solar ar adeiladau cymunedol, clybiau chwaraeon a busnesau lleol.

Nodau rhaglen Heuldro yw cynyddu cynhyrchiant ynni adnewyddadwy lleol a chefnogi defnyddwyr yr adeiladau trwy gyflenwi trydan rhatach a darparu sefydlogrwydd prisiau hirdymor.

Mae Ynni Ogwen yn talu am y paneli solar a phopeth sy'n gysylltiedig â nhw. Defnyddir cwmnïau lleol achredig i'w gosod a'u cynnal. Mae pris y trydan solar wedi'i osod ar lefel y cytunwyd arni ymlaen llaw wedi'i theilwra i ddefnydd trydan yr adeilad, a fydd yn is na phris arferol y grid.

Mae'n bleser gallu adrodd bod tri safle newydd wedi ymuno â'r rhaglen ers dechrau 2025. Yn gyntaf, gosodwyd system 6.16kWp yn Neuadd Goffa Mynydd Llandygai ym mis Ionawr. Diolch i Elusen Ogwen am ddarparu grant i Bwyllgor y Neuadd tuag at gost system batri a fydd yn eu galluogi i wneud defnydd llawn o'r ynni glân a gynhyrchir yng ngolau dydd.



Mae Neuadd Goffa Mynydd Llandygai wedi elwa o gefnogaeth Ynni Ogwen

Ar ddechrau mis Mai gosodwyd 14.4kWp o baneli solar a system batri 11.6kWh yng Nghanolfan Tregarth ac yn ddiweddarach yn y mis gosodwyd 4.3kWp o baneli solar yng Nghlwb Pêl-droed Bethesda.

Yn fuan byddwn yn ychwanegu 8.8kWp o baneli solar yng Nghaban Cysgu Gerlan at y system fach a osodwyd yn ôl yn 2020.

Bydd y gosodiadau newydd hyn yn dod â chyfanswm buddsoddiad Ynni Ogwen yn rhaglen Heuldro i £188,000. Bellach mae gennym 11 adeilad yn y rhaglen gyda'r capasiti i gynhyrchu hyd at 140kWp o drydan glân fforddiadwy i gyd.

Os ydych chi'n adnabod busnes lleol neu adeilad cymunedol a allai elwa o ymuno â rhaglen Heuldro, cysylltwch ag **ynni@ogwen.org**

# YSGOL DYFFRYN OGWEN

**Ymddeoliad a Chroeso**
Wrth i dymor yr haf ddod i ben, mae Ysgol Dyffryn Ogwen yn paratoi i ffarwelio â'r Pennaeth M. Dylan Davies, a fydd yn camu i lawr ddiwedd mis Awst ar ôl 26 o flynyddoedd o wasanaeth ymroddedig, dros ddau gyfnod.
Drwy gydol ei gyfnod wrth y llyw, mae Mr Davies wedi arwain yr ysgol gydag ymrwymiad, tosturi ac uchelgais diysgog - gan lywio staff a disgyblion trwy gyfnodau o dwf a her gyda gwydnwch a gweledigaeth. O dan ei arweinyddiaeth, mae'r ysgol wedi mynd o nerth i nerth, gan gyflawni llwyddiant academaidd, meithrin diwylliant o garedigrwydd, ac adeiladu cysylltiadau cryf â'r gymuned.

"Rydym yn hynod ddiolchgar am bopeth y mae Mr Davies wedi'i wneud i'n hysgol. Bydd ei gyfraniad at fywydau ein disgyblion a chymuned ehangach yr ysgol yn gadael marc parhaol," meddai Cadeirydd y Llywodraethwyr, Dr Paul Rowlinson.

Wrth i un bennod gau, mae un gyffrous arall yn dechrau. Mae'r llywodraethwyr a chymuned yr ysgol yn falch o gyhoeddi penodiad Mrs Kelly Morgan yn Bennaeth newydd, gan ddechrau yn ei rôl ar 1af Medi.

Mae Mrs Morgan yn dod â chyfoeth o brofiad, angerdd, ac ymrwymiad cadarn i barhau â gwerthoedd a chyflawniadau'r ysgol. Mae hi'n awyddus i adeiladu ar lwyddiant yr ysgol mewn cydweithrediad â disgyblion, rhieni a staff.

Dymunwn y gorau i Mr Davies ar ei ymddeoliad ac rydym yn croesawu Mrs Morgan yn gynnes i gymuned Dyffryn Ogwen. Rhag ofn bod nifer ohonoch yn crafu eich pennau, mae penodiad Mrs Morgan yn garreg filltir nodedig, y ddynes gyntaf i'w phenodi yn bennaeth Ysgol Dyffryn Ogwen mewn dros ganrif a chwarter.


Tia, Erin a Nia


Callum, Iestyn a Joseff

**Cyflwyno Proffil Personol**
Ddydd Iau, 19eg o Fehefin, cynhaliwyd cyfarfod i gyflwyno Proffiliau Personol i ddisgyblion blwyddyn 11 ac 13 ar ddiwedd eu cyfnodau arholiadau. Diolch i Mrs Davies Jones, Pennaeth Ysgol Llanllechid am yr anerchiad a'i geiriau doeth o gyngor. Mae'n draddodiad bellach i'r disgyblion wisgo'u dillad gorau ar gyfer y cyfarfod. Fel y gwelwch o'r lluniau uchod roedd pawb yn hynod o smart! Cafwyd eitemau cerddorol ar y piano gan Dafydd Jones, *City of Stars (La La Land)* a deuawd piano gan Lloer Gwilym a Mr Thomas, *Feeling Zany*. Braf iawn oedd gweld y neuadd yn orlawn o deuluoedd a ffrindiau. Cyflwynwyd anrhegion i'r athrawon dosbarth gan y disgyblion fel arwydd o'u gwerthfawrogiad. Diolch i bawb a gefnogodd y seremoni.

**Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol**
Hoffem ddiolch i Mr Rhys Wheldon-Roberts o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol am ddod draw i rannu ei arbenigedd trwy roi cyflwyniad, ateb cwestiynau a thanio chwilfrydedd disgyblion blwyddyn 7 am Gwm Idwal. Mae'r disgyblion newydd gychwyn rhaglen ddysgu lle byddant yn dysgu am Gwm Idwal, y daeareg, y chwedlau, y natur arbennig a gwerth y lleoliad ar gyfer iechyd a lles. Yn ogystal, byddant yn cynnal ymholiad dyniaethau er mwyn ateb cwestiwn mawr ar effaith twristiaid ar Gwm Idwal.

**Ymwelydd i'r Adran Gymraeg**
Pleser o'r mwyaf oedd croesawu'r bardd Meirion Macintyre Hughes i'r ysgol ddiwedd mis Mehefin. Bu'n cynnal gweithdy gyda dosbarthiadau blwyddyn 7 i ddatblygu eu sgiliau iaith trwy farddoni am eu hardal leol. Mae'r profiad gwych yma yn rhan o'r cynllun Strategaeth Iaith dalgylchol, a mae'n cyfoethogi'r rhaglen ddysgu 'Cynefin'. Da iawn bl.7 a diolch i Mei Mac. Pa mor wych yw'r gerdd hon?

**Howgets**
Pobl Tryfan a Dôl Dafydd,
Pobl galed fel coed ar fynydd,
Yn perthyn i Barc Meurig,
Chwarel Bryn, a'r Lôn Rufeinig.

Yn eu gwaed mae iaith a'r nef,
Hen chwedlau glannau'r llynnoedd ef,
Aur y wawr dros Garnedd Llywelyn,
Machlud haul ar Arglwydd Penrhyn.

Yn eu calonnau – Mabinogi,
Fflam heddwch hen Nant Ffrancon, digon cry',
Y pum chwarel, pen Moel Faban,
A defaid i gyd William Morgan.

Lôn Bach Odro, Williams Parry,
Cinio Sul yn y Clwb Rygbi,
Rhai wedi'u naddu'n ddrwm o'r llechan –
Pobl falch Dyffryn Ogwen.

**Diwrnod Blasu Blwyddyn 6**
Cafwyd diwrnod prysur yn llawn dysgu pan groesawyd disgyblion blwyddyn 6 ysgolion y dalgylch i ymuno gyda ni yn yr ysgol! Diolch i Menter Iaith am y cwis a'r cyngor gorau i gadw'r iaith yn fyw.

**Ymweliad yr Adran Saesneg**
Bu disgyblion blwyddyn 12 mewn cynhyrchiad byw a phwerus gan 'National Theatre Live' o 'A Streetcar Named Desire" sy'n un o ddarnau gosod y cwrs Saesneg Safon Uwch. Diolch yn fawr i Mrs Emma Owen am drefnu noson werth chweil!



Disgyblion blwyddyn 12 gyda Mrs Emma Owen

### Cystadleuaeth Mathemateg

Llongyfarchiadau i'n mathemategwyr talentog ym mlwyddyn 8 ar eu llwyddiant yn yr 'UKMT Junior Mathematical Challenge'. Mae hon yn gystadleuaeth flynyddol ar gyfer disgyblion ar draws y DU gyfan, sy'n profi sgiliau mathemategol, rhesymu a datrys problemau. Y rhai a ddaeth i'r brig oedd Lowri (aur), Prys, Efa, Caty, Noa, Math ac Elise (efydd). Dipyn o gamp, da iawn chi rydym yn falch iawn ohonoch.






### Cynrychioli Cymru

Llongyfarchiadau i Gruff Beech a Max Williams ar gynrychioli Ysgolion Cymru dan 14 mewn cystadleuaeth yn erbyn yr Alban a thimau Iwerddon yn Antrim yn ddiweddar. Fe wnaeth y garfan yn arbennig o dda i gyrraedd y ffeinal a cholli o un gôl hwyr. Da iawn chi hogia.

### Pêl-droed

Cafodd ein dylanwadwyr pêl droed ddiwrnod gwych yn mynychu cynhadledd ym Mharc y Glowyr, Wrecsam yn ddiweddar. Cafwyd cyfle i gydweithio gyda dylanwadwyr o ysgolion eraill a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae pêl-droed merched y Dyffryn mewn dwylo da. Diolch i Mrs Durrell am drefnu unwaith eto.

Bu merched blwyddyn 7 ac 8 yn cystadlu yng nghystadleuaeth Cwpan pêl-droed merched Gwynedd. Ymdrech dda gan bawb!

### Rygbi

Enillwyr y plât yn ffeinal Rygbi Gogledd Cymru oedd tîm merched blwyddyn 7 ac 8. Am dîm gwych Diolch i Osian ac Anest am hyfforddi a mynd a nhw i'r gystadleuaeth. Be am yr hogia?

Llongyfarchiadau i fechgyn blwyddyn 7 ar gyrraedd ffeinal 'Super 12' rygbi ysgolion Gogledd Cymru yn ddiweddar. Da iawn chi ar ennill 4 gêm allan o 4 ar y ffordd i'r ffeinal.



Tîm Rygbi Genethod Blwyddyn 7/8



Tîm Rygbi Bechgyn Blwyddyn 7

### Pêl fasged Cadair Olwyn

Cafodd merched 7 Glyder brofiad gwych yn chwarae pêl fasged cadair olwyn gyda hyfforddwyr Clwb Pêl-fasged Cadair Olwyn Caernarfon Celts. Diolch am y croeso a diolch i Mrs Durrell am drefnu.

STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

TÎM PLAID CYMRU DYFFRYN OGWEN

| cynghorydd. | cynghorydd. | cynghorydd. | cynghorydd. | cynghorydd. |
|---|---|---|---|---|
| Dafydd Meurig@gwynedd.llyw.cymru | EinirWyn Williams@gwynedd.llyw.cymru | Rheinallt Puw@gwynedd.llyw.cymru | Beca Roberts@gwynedd.llyw.cymru | Paul Rowlinson@gwynedd.llyw.cymru |
| 07765 400140 | 07747 690456 | 07789 742092 | 07436 927237 | 07949 034967 |
| Arllechwedd | Gerlan | Canol Bethesda | Tregarth & Mynydd Llandygai | Rachub |



# YSGOL TREGARTH

### Criced

Bu tri tîm o'r ysgol yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth criced y dalgylch draw yng nghlwb criced Bethesda. Roedd 7 tîm yn cymryd rhan i gyd, a phawb yn chwarae ei gilydd unwaith, gyda'r ddau dîm ar dop y gynghrair yn mynd ymlaen i'r rownd derfynol ysgolion Gwynedd a Môn ar ddiwedd y mis. Yn ffodus, gorffennodd tîm Tregarth A yn ail yn y gynghrair i fynd ymlaen i'r rownd nesaf. Da iawn i bawb a gynrychiolodd yr ysgol mor dda ar y diwrnod, a phob lwc i dîm A yn y rownd nesaf.





### Sgleinio'r lleuad

Cafodd plant dosbarthiadau'r dysgu sylfaen gyfle i fynd i wylio'r sioe 'Sgleinio'r lleuad' ym Mhontio yn ddiweddar. Roedd y sioe yn werth ei gweld a phawb wedi mwynhau'r profiad o weld perfformiad byw yn y theatr.



### Ysgol goedwig

Mae dosbarth Elidir Fawr, Yr Aran ac Yr Elen wedi llwyr fwynhau sesiwn ysgol goedwig ym Mharc y Moch yn ystod y mis hwn. Cafwyd cyfle i arsylwi ar fyd natur, creu wialen bysgota, adeiladu den, cynnau tân a bod allan yng nghanol tawelwch y goedwig. Diolch yn fawr iawn i Harri Pickering am arwain y sesiynau eto'r flwyddyn yma. Braf oedd cael gweld y plant yn mwynhau bod yn yr awyr agored a manteisio ar hyfrydwch coedwig sydd mor agos i'r ysgol.

### Seiclo bl.6

Cafodd nifer o ddisgyblion blwyddyn 6 gyfle i ddatblygu eu sgiliau reidio beic yn ddiweddar ac roedd llawer ohonynt wedi pasio lefel 2. Da iawn bawb, pwyll pia' hi rwan a chofiwch yr holl reolau rydych wedi ddysgu i gadw'n ddiogel.

### Sioe Dyffryn Ogwen

Cafwyd cryn lwyddiant yn yr adran gelf yn sioe Dyffryn Ogwen yn ddiweddar. Mae'n amlwg fod gennym artistiaid o fri yma yn Nhregarth. Diolch yn fawr iawn i Miss Griffith a fu'n cynnal clwb celf ar ôl ysgol er mwyn rhoi cyfle i'r plant gael cystadlu, diolch i chi!

### Gŵyl pêl-droed

Fel rhan o brosiect LleChi LleNi, cafodd Ysgol Tregarth gynnig i fynychu gŵyl bêl-droed draw yng nghaeau newydd Y Gloddfa Glai, Talysarn. Roedd yr ŵyl yma yn ddiwrnod swyddogol i agor y caeau newydd gyda thipyn o weithgareddau gwahanol ymlaen. Roedd Mei Emrys yno yn cynnal gweithdy sylwebu i'r plant, Ffion Eluned yn siarad am lansiad ei llyfr newydd ynglŷn â'r Ewros 2025 a digon o gemau pêl-droed yn ystod y dydd.




## AR WERTH

Tŷ teras 2 lofft, cegin – pobty newydd, ystafell fyw, ystafell ymolchi/cawod newydd, gardd a sied yn Lôn Groes, Rachub – angen gwaith.
Cynigion dros £50,000
Ffoniwch **07922 128 204** am fwy o wybodaeth ac i drefnu i'w weld.


### Glan Llyn

Aeth plant blwyddyn 4 draw i Glan Llyn am drip preswyl ar gychwyn y mis. Cyrhaeddodd y plant ar fore dydd Llun, setlo yn eu hystafelloedd ac allan a nhw yn syth ar gyfer gweithgareddau'r diwrnod cyntaf. Cafodd y plant gyfle i wneud saethyddiaeth, canŵio, rhaffau uchel a chael sioe adar gyda'r nos. Y diwrnod canlynol, cafodd y plant gyfle i adeiladu rafft a dringo, cyn mynd yn ôl am adref. Profiad bythgofiadwy i'r plant a phawb wedi mwynhau.


Elwyn Jones & Co
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd
(01248) 370224
*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*
*Swyddfeydd eraill:*
Llangefni (01248) 723106 | Porthaethwy (01248) 719517 | Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616 | Pwllheli (01758) 703000)

JOHN ROBERTS
Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr
**Symudol:** 07747 628650
**Ffôn:** 01248 600995

# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(07887624459) henbarc13@gmail.com

**Colled**
Bu farw Brian Jones, 6 Bron Arfon, Llanllechid, yn annisgwyl yn 71 oed. Gŵr annwyl Gwenda a thad cariadus Gareth, Gethin, Siôn ac Huw. Bydd yn golled ddirfawr i'w deulu a'i gyfeillion ac yn cael ei gofio gyda chariad. Angladd preifat yn unol a dymuniadau Brian.

**Diolch**
Hoffai teulu'r diweddar Alwyn Bevan ddiolch yn ddiffuant am yr holl garedigrwydd, cefnogaeth a chydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn dilyn colli gŵr, tad, brawd, tad-yng-nghyfraith, brawd-yng-nghyfraith a thaid annwyl iawn.

Diolch i bawb o bell ac agos a ddaeth i'r amlosgfa ym Mangor ac am y canu emynau ysbrydoledig. Rydym yn hynod ddiolchgar am y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof am Alwyn, a gododd £1,170 tuag at y Gofeb Gymreig a Chymdeithas Hedd Wyn yn Fflandrys, Gwlad Belg.

Hoffem hefyd ddiolch i J.P. Turner a'i Ferched o Bentir am eu harweiniad proffesiynol, eu cefnogaeth, a'u trefniadau urddasol mewn cyfnod mor anodd. Diolch yn fawr.

## Adroddiad Cyngor Cymuned Llanllechid

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mehefin y Cyngor Cymuned ar Nos Iau, 12fed o Fehefin.

Mae Cyngor Cymuned Llanllechid yn pryderu am newidiadau ym mhatrwm diweddar yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol tuag at drefn tenantiaeth amaethyddol Dyffryn Ogwen gyda cymaint o denantiaid fferm yn rhoi gorau iddi.

Hoffai'r Cyngor Cymuned longyfarch Clwb Ffermwyr ifanc Dyffryn Ogwen ar ei buddugoliaeth diweddar yn Rali Ffermwyr ifanc Eryri eleni.

Rydym yn estyn croeso i Idris Morris ar ei swydd newydd fel bugail mynydd. Mae ganddo fentor da gan mai ei dad, Richard Temple Morris oedd ei ragflaenydd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher, 23ain Gorffennaf.

## Capel Carmel

**Angladd**
Cynhaliwyd gwasanaeth angladdol Mrs Shirley Parry, Ffordd Llanllechid yng Nghapel Carmel ar y 12 o fis Mehefin. Daeth Shirley i fyw i Rachub tua 50 mlynedd yn ôl. Anfonodd ei phlant, David, Lisa, a Shirley i'r Ysgol Sul yn rheolaidd. Rydan ni'n cydymdeimlo hefo Jennifer, sydd wedi bod yn gofalu amdani'n annwyl iawn dros y blynyddoedd diwethaf, a'r teulu i gyd.

**Colled**
Bu farw un o ffyddloniaid yr achos yn ystod y mis, sef Mr John Rowland "JR" Jones, Awelon, Yr Ynys, Rachub. Pan ddaeth i fyw i Rachub gyda'i briod, Millie, 10 mlynedd yn ôl, mi ddaeth yn rhan bwysig o'r gymdeithas yma. Mae llawer o bobl Rachub yn cofio amdano yn mynd i'r siop i nôl ei bapur bob dydd, efo'i het am ei ben. Roedd honno'n het debyg iawn i het gowboi. Roedd JR yn ŵr bonheddig iawn a pharod iawn i chwerthin. Mae ei gymdogion wedi cael lot o sbort yn ei gwmni. Mi aeth yn aelod yng Nghôr y Penrhyn hefyd, gan ychwanegu ei lais tenor cyfoethog ef at y nifer. Roedd ganddo ddawn gerddorol ers dyddiau ei ieuenctid ac yn ei gyfnod yn y fyddin roedd yn canu'r ffliwt a'r picolo yn y band ac mi gytunodd i fod yn un o organyddion Capel Carmel er bod arthritis yn ei flino yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mi fyddwn ni wir yn gweld chwith mawr yn y capel ar ôl JR. Diolch am ei ymroddiad i'r capel, i'r gân, i'r côr a'r gymdeithas leol. Rydan ni'n cydymdeimlo hefo'i briod Millie, ei blant, Catherine ac Elfyn a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

**Dwylo Prysur**



Mi wnaethom ni drefnu i fynd am dro i'r mynydd ar y noswaith Wener olaf ym mis Mehefin ond ni ddaeth y trefniant hwnnw i'w gyflawniad. Roedd hi'n dywydd braidd yn wyntog a glawog ac oherwydd hynny, mi wnaethom ni benderfynu dechrau ar un o weithgareddau'r tymor nesaf sef gwau clustogau. Mi gawsom ni bicnic bach dan do yn yr ysgoldy i gloi'r clwb am yr haf. Rydan ni'n edrych ymlaen at weld pawb unwaith eto ym mis Medi pan fydd yna groeso mawr i aelodau newydd ymuno â ni hefyd.

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs: 01248 601754
07770 568743 (symudol)

MODURON PANDY Cyf.
UNIPART CAR CARE CENTRE
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY


## Haf Castell Penrhyn

Rhwng 19 Gorffennaf a 3 Awst bydd cyfle i ddarganfod mwy am wreiddiau hanesyddol Castell Penrhyn trwy lwybr archeoleg hunan-dywys a theithiau tywys arbennig fel rhan o Ŵyl Archeoleg. Rhaid archebu lle ar y teithiau tywys sy'n cael eu cynnal ar 22 a 29 Gorffennaf.

Mae Haf o Hwyl yn cynnig gweithgareddau difyr i deuluoedd - gan gynnwys arddangos talentau ar y llwyfan perfformio, profi sgiliau adeiladu a chreadigol yn y parth adeiladu. Bydd cyfle hefyd i weld chwarelwyr Amgueddfa Lechi Cymru yn arddangos y grefft unigryw o hollti a naddu llechi.

Am fwy o wybodaeth: **www.nationaltrust.org. uk/ penrhyn-castle-and-garden**

# CROESAIR



## AR DRAWS

1 Mae un Pennant ac Ystradllyn gyferbyn â'i gilydd yn Eifionydd (3)
3 Rhan o air (3)
5 Fyddwn i ddim yn argymell torheulo ynghanol y rhain – berig bywyd ! (4)
8 Rhan o ddiwedd llythyr busnes os yn gywir (5)
9 " - - - - - - - fach cyn elo'r haul o'r wybren" Waldo (2,5)
10 Y gŵr yma, cyn gorffen drysu, yn cynnig syniad gwell (7)
12 Ymryson corfforol all roi'r loes fwyaf poenus (5)
13 Sut i newid er mwyn bod yn hollol ddistaw (3)
15 Glynu (5)
17 Pob un ohonoch (3)
19 Swnio fel cartref crefyddol i 19 i Lawr (5)
20 Tyfiant wyneb; estyn am y rasal (7)
23 Bai tenor heb ddechrau'r emyn-dôn yn canu mewn llais is (7)
24 Cartrefi gweithwyr 11 I Lawr, ond nid ar y dyfroedd (5)
25 Ffordd o sefyll (4)
26 Mae 5 Ar Draws yn creu llawer o hyn mewn rhyw eiliad neu ddwy (3)
27 Arweinyddion y wlad yn canmol eu harweinydd, "un da'r arlywydd" (1,1,1)

## I LAWR

1 Bach yw dail ynghanol y creu, ond yn mynd yn llai fyth yn yr hydref (7)
2 Gemydd dryslyd yn cynnig gwellhad (5)
3 "Ond - - - - - ddagrau Walia Wen, Mae seren gobaith uwch dy ben" Mynyddog (3,2)
4 Merch a chariad cân enwog Dewi P. (5)
5 Ystyried a meddwl yn ddwys (7)
6 Bag mawr iawn yn llawn o datws, e.e. (4,3)
7 Ychwanegu (4)
11 Neithdar yw ffynhonnell hwn (3)
14 Silverstone neu Brands Hatch, neu Aintree efallai (4,3)
15 Tymer, o'i golli wyt ti'n mynd yn flin ac yn gas ? (7)
16 Cell i gadw 11 I Lawr (3)
18 Llwncdestun, fel pe bai gan 2 I Lawr (5,2)
19 Pedwarawd Scandinafaidd enwocaf y 1970au (4)
20 Ychwanegiad i gyflog fel 'tâl mawr' y chwarel ers talwm (5)
21 Symbol neu lun ar sgrin cyfrifiadur neu mewn eglwys (5)
22 Nifer o wyrthiau Iesu (5)

## ATEBION CROESAIR MEHEFIN 2025

**AR DRAWS** 1 Neu, 3 NHS 5 Cegin, 8 Fodan, 9 Seithfed, 10 Nage, 11 Ffasiynol, 12 Pennog, 14 Marchog, 17 Comediwr, 19 Siec, 22 Aeddfedu, 23 Arogl, 24 Chwist, 25 Oed, 26 Addo

**I LAWR** 1 Nefyn, 2 Un-Deg-Un, 3 Nyni, 4 Sosban, 5 Clinigau, 6 Gofyn, 7 Nadolig, 12 Llond Cert, 13 Picwarch, 15 Chwilota, 16 Sŵn Udo, 18 Meddai, 20 Cilio, 21 Ffawd

Prin yw'r gwallau, diolch am hynny. Cafwyd tri yn cynnig 'cŵn udo' ac un 'cân udo' yn lle 'sŵn udo' (16 I Lawr), un 'nina' yn lle 'nyni' (3 I Lawr), un 'comidian' yn lle 'comediwr' (17 Ar Draws) ac un yn rhoi 'niwc' yn lle'r ateb cywir 'siec' (19 Ar Draws)

Da iawn y canlynol am atebion hollol gywir : Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Gareth Oliver, Dulcie Roberts, Tregarth; Myrddin Williams, Capel Uchaf Clynnog; Iona Williams, Llanddulas; Barbara Jones, Talybont; John Ffrancon Griffith, Abergele; Judith Hughes, Llangoed; Gill King, Mynydd Llandygai; Margaret Williams, Doris Shaw, Ann Morris, Bethesda; Jean Vaughan Jones, Dilys Parry, Rhiwlas

Llongyfarchiadau calonnog i chi Gwenda Roberts, Gorwel Deg, Rhosmeirch, Ynys Môn LL77 7SJ am fod yn gyntaf allan o'r het i dderbyn y wobr y mis yma.

Atebion erbyn 15fed Awst 2025 fan bellaf (ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach) i 'Croesair Gorffennaf/Awst', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD


MODURDY FFRYDLAS

Profion M.O.T.

PERCHNOGION
A.LL. ac R.W. WILLIAMS
**Stryd Fawr, Bethesda**
PROFION M.O.T.

GWASANAETH ATGYWEIRIO
TEIARS A BATRIS
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com